Margt Thomas
Capel Dwr Dwfr
Llan dysul

YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

GORPHENAF, 1870.

PA FFYDD SYDD IAWN?

"*Yr hwn sydd yn credu ynof fi, nid yw yn credu ynof fi, ond yn yr hwn a'm hanfonodd i. Mi a ddaethum yn oleuni i'r byd, fel y bo i bob un a'r sydd yn credu ynof fi, nad aroso yn y tywyllwch.*"

IOAN XII. 44, 46.

BETH pe byddai i mi ddyfod o ryw ynys bell ac unigol yn y môr, lle na chyrhaeddodd erioed na geiriau nac enw Iesu Grist, a theithio o wlad i wlad, gan sylwi ar y gwahanol ffyrdd yr addolai y trigolion eu duwiau, ac y proffesent eu credöau, ac felly i gael fy arwain i ofyn, "Pa un o'r rhai hyn yw y ffydd iawn? A ddylwn i, gyda'r paganiaid, syrthio ar fy ngliniau o flaen eu delwau cerfiedig? neu gyda'r Cristionogion yn eu heglwysi? A ddylwn i, gyda'r Iuddewon, addoli y Jehofah mawr a galluog, a chadw cyfraith Moses yn ei holl seremoniau? neu ynte gyda chanlynwyr Mahomed, gasâu ac erlid pawb na ufuddhaent i grefydd eu prophwyd?" Pa fodd y gallwn ateb fy ngofyniadau? Trwy ba arwyddion y gallwn obeithio gwahaniaethu yr iawn oddiwrth y gau ffydd? Ymffrostia y Cristionogion, yn wir, eu bod hwy yn meddu ar ddwyfol ddatguddiad. Ond sicrha yr Iuddewon hefyd i Dduw roddi eu cyfraith hwy i Moses ar ben mynydd santaidd Sinai. Ac oni ddarfu i Mahomed gyhoeddi ei grefydd yntau yn Arabia, ar y sail iddo ei derbyn oddiwrth Dduw? Nid llai gwir yw hefyd fod y paganiaid yn dal i'r duwiau ddisgyn i lawr o'r nefoedd i draddodi i drigolion y ddaear ddoethineb nefol. Rhaid i mi, debygwn, dderbyn y naill neu y llall o'r crefyddau hyn, oblegid dal pob un—y Cristion, yr Iuddew, y Mahomedan, a'r pagan—mai efe sydd iawn, a chytunant, bawb o honynt, i gondemnio ffydd y naill a'r llall.

Y ffeithiau hyn ydynt ar fy meddwl. Myfyriaf ar y cwestiynau pwysfawr a gynwysant, a gwnaf fy meddwl i fynu yn eu cylch fel y canlyn:—

Rhwym wyf o gredu mai y ffydd hòno yn unig sy ddwyfol yr hon a wna ddyn yn ddwyfol. Meddwl wyf y ffydd hòno a gyfoda ddyn yn uwch na llwch y ddaear, a rodda iddo uchafiaeth ar dynged, a'i gwareda rhag ofn angeu, yr hon a sicrha iddo fod ei yspryd yn rhydd oddiwrth ac yn annibynol ar bethau allanol, a bod ei natur yn berffeithiach na'r îs-greaduriaid ydynt yn byw yn ol anian ac yn trengu yn angeu; oblegid

rhaid i'r ffydd sydd o Dduw feddu gallu i'n cyfodi ato ei hun. Tuedd y ffydd o Dduw yw dyrchafu ein natur. Mae yn meddu ar egni a grym dwyfol. Lle nad oes y fath rym, nid oes anian ddwyfol. Pob ffydd a fywiocâ yr enaid, rhaid fod ynddi rym dwyfol—grym i gyfodi yr enaid i fynu at Dduw.

Dyma'r prawf, ac yr wyf yn ei gymhwyso. Beth wyf yn ganfod? Y crefyddau paganaidd yn syrthio i ddinystr. Pa fodd y gallaf addoli y duw a gerfiais o'r graig â'm dwylaw fy hun? Pa fodd y gallaf blygu fy ngliniau i'r haul a'r sêr, y rhai a orfyddant droi yn eu cylchoedd penodol, ac am hyny na feddant y rhyddid sydd genyf fi fy hun; y rhai dan ddylanwad nerth ewyllys goruwch a weinant yn unig i'n dedwyddwch daearol a sylweddol? Pa fodd hefyd y gallaf weddio ar greaduriaid israddol, y rhai, yn wir, ydynt yn wasanaethgar i mi, ond a arswydant wrth fy mygythion, ac a arweinir genyf drwy rym fy neall i ba le bynag y mynwyf? Neu, a ydyw dyn yn fwy dyrchafedig na'i dduw?

Rhaid i'r wir ffydd fy ngwneuthur i yn ddwyfol. Beth wyf yn ddeall wrth yr enw *Duw?* Deallwyf wrtho yr un Bôd Perffaith, Hollalluog, Hollwybodol, Perffaith dda, "heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes." Os llefara y fath Fôd gogoneddus wrth ddyn, rhaid fod tuedd yn y peth a lefara i wneuthur dyn rywbeth yn debyg iddo ei hunan. Rhaid i ysprydoliaeth hollalluogrwydd gyfranu pwer—pwer fel ei eiddo ei hun; nid pwer corfforol yn unig, oblegid yn y pwer hyny maeddir fi gan yr isgreaduriaid, ond pwer yn cyfateb i natur Duw a'm natur fy hunan; pwer meddyliol a moesol; pwer ar bethau darfodedig, ar newyn a syched, ar ddrygau allanol a themtasiynau oddifewn; mewn gair, pwer a ddengys ei ddwyfoliaeth drwy ardderchogi fy natur. Yn meddu ar y golygiadau hyn, dysgwyliaf yn naturiol i'm ffydd, fel un ddwyfol a gwir, fy ngwneyd yn ddoethach, gan fy nonio â'r gwir ddoethineb hwnw a'm galluoga i lafurio dros ddedwyddwch ereill, yn gymaint ag nad yw Duw ei hun un amser yn gadael heibio gwneyd da a chyfranu. Yn naturiol, hefyd, dysgwyliaf y bydd i'm crêd mewn anfarwoldeb fy addasu i fodolaeth ddiderfyn. Rhodda y wir ffydd annogaeth barhaus i ddyn i ymestyn at ragoriaeth Duw. Y mae rhagoriaethau daearol yn trengu, ond rhagoriaethau ysprydol ynt ddiderfyn eu parhad, oblegid Bôd tragywyddol yw Duw.

Hefyd, dywedaf fod y ffydd hòno yn un ddwyfol a ddiwalla holl ofynion fy neall, ac a eglura i mi bethau hebddi a ymddangosent yn dywyll ac anegluradwy; oblegid pa fodd y gallaf dderbyn, fel yn ddwyfol, ffydd annealladwy a chroes i reswm? A all hòno fod yn ffydd dwyfol ddatguddiad a gynwys afresymoldebau a wrthodwn mewn gorchwylion tymhorol?

Mae pawb, i raddau mwy neu lai, yn perchen synwyr; medda pawb allu i amgyffred. Cynheddfau naturiol yw rheswm a gallu meddyliol. O ganlyniad, mae llawer o wirioneddau a gydnabyddir felly yn mhob oes, yn mhob gwlad, yn mhlith pawb dynion, ac yn mhob math o amgylchiadau, gan hyny y mae llawer o bethau nad oes dim amheuaeth yn eu cylch; ond nid yw pawb yn arferyd eu galluoedd naturiol gyda'r un ffyddlondeb. Am hyny rhaid i ffydd o darddiad dwyfol gytuno, nid yn unig âg amgyffred y doeth a'r dysgedig, ond hefyd yr anwybodus a'r diddysg; oblegid y mae Duw yn Dad i bawb, onitê ni fyddai yn deilwng o'i ddoethineb a'i gariad. Prawf o'i nefol darddiad yw fod y ffydd yn

digoni deall ac yn cyfoethogi calon y dysgedig a'r annysgedig, yr henafgwr a'r plentyn, gan anrhegu â rhoddion dwyfol bawb yn ddiwahan.

Yn gymaint âg fod cyrhaeddiadau deallawl dyn yn gyfyngedig o fewn terfynau cul, ac na feddant ar wybodaeth o bethau uwch na'r ddaear, rhaid i ffydd, cyn y byddo i'w hystyried yn ddwyfol, gyflawni gofynion ein natur ysprydol yn y pethau hyny ag sydd yn guddiedig oddiwrthym. Rhaid iddi egluro dirgelion sydd yn anegluradwy i reswm. Rhaid iddi egluro i mi paham y mae fy yspryd wedi ei ddonio mor helaeth â chymhwysderau mor uchel, er hyny na allaf ddefnyddio un o honynt yn gyflawn, na dadblygu y lleiaf i'r eithafion a ddymunwn. Rhaid iddi egluro i mi yr awydd naturiol a deimlaf i geisio dedwyddwch yn llwybr rhinwedd, a minau ar yr un pryd yn gweled dynion rhinweddol a diniwed mewn eisieu a gwae. Rhaid iddi egluro i mi paham y mae fy holl natur yn ymestyn i fynu at berffeithrwydd, pryd na wn pa mor gynted y bydd i'r awr olaf fy ngoddiweddyd, a gosod terfyn ar fy holl ymdrechion. Paham y planodd yr Hollalluog yn fy natur awydd na allaf foddhau yn y 'stâd bresenol? Paham y gosododd ynof bwerau na allant yma byth gyrhaeddyd cyflawn faintioli? Paham y gwnaeth i mi sychedu am ddedwyddwch oddiwrth rinwedd a doethineb, heb roddi i mi fodd i dòri fy syched? Ai yn ddifudd y gwnaeth y pethau hyn? Ni all fod. Fy Nhad yw Duw, am hyny rhaid fod ei air yn cyfateb i'r natur a roddes i mi, ac y cyflawna mewn bywyd i ddyfod yr hyn sydd ddiffygiol yn y bywyd presenol. Y ffydd hòno yn unig all fod yn wir yr hon a dafl oleuni ar y tywyllwch o'm hamgylch, ac a wna leoedd geirwon yn llyfn dan fy nhraed.

Unwaith eto; y ffydd hòno ddywedwn sydd wir yr hon sydd yn gyson â gosodiadau digyfnewid y greadigaeth, am fod pob peth a ddeillia oddi wrth Dduw yn meddu cyflawn gysonder. Y greadigaeth a datguddiad ydynt eill dau oddiwrth Dduw, ac ni all fod ynddynt anghysonder; ni all y naill orchfygu a diddymu y llall, ond yn hytrach cynorthwyant eu gilydd; taflant oleuni y naill ar y llall. Y peth a ddysga Duw yn ei weithredoedd, mae yn rhwym o gadarnhau yn ei ddatguddiad. Os dysga fy ffydd i mi niweidio fy nghorff, i dywyllu fy meddwl, i gyfyngu fy rhyddid, ac i luddias fy nghynydd; os yw fy ffydd yn culhau ac yn caledu fy nghalon, yn peri i mi ymddwyn yn rhagfarnllyd tuag at ereill, yn annaturiol i'm plant, yn orthrymus i'r sawl sydd odditanaf, mae yn eglur fod fy ffydd yn gwrthryfela yn erbyn cyfraith Duw. Mae gwir ffydd mewn cytundeb â holl dueddiadau daionus y natur ddynol yn y fath fodd ag i ddadblygu, ëangu, puro, ac ardderchogi ei holl gynhyrfiadau rhinweddol, ac yn cydweithredu i gyflawni y dyben oedd gan Dduw yn rhoddi i mi fôd.

Yn ddiweddaf, y ffydd hòno gredwn sydd wir a dwyfol, gwersi yr hon, o'u cario i gyflawn weithrediad, a ddiweddant yn nghyflawn hapusrwydd yr hîl ddynol. Oblegid yn Nuw canfyddaf Greawdwr doeth a charedig, yr hwn sydd yn rhoi bywyd i ddynion yn unig fel y byddont ddedwydd. Pe meddech ar allu, a grëech chwi fodau i fyw yma mewn trueni, ac i ddyoddef yn nhragywyddoldeb boenau annesgrifiadwy a diderfyn? Pa fodd gan hyny y gall Duw wneuthur hyn? A pha fodd y gall yr athrawiaeth hòno fod o Dduw, yr hon a briodola i'r Tad Hollgariadlon yr hyn ni wnai ei blant egwan a phechadurus heb deimlo arnynt arswyd? Nis gallaf gredu fod y ffydd hòno yn wir yr hon a ddynoda dyn fel bôd

mwy tynergalon na Duw—y creadur yn well na'r Creawdwr; nac ychwaith yr hon a ennyna gâs crefyddol rhwng dynion a'u gilydd; na'r hon a'i gwna hi yn anhawdd, os nid yn anmhosibl, i gymydogion gydfyw mewn heddwch; na'r hon a'ch gwna chwi yn anwylyd, yn etholedig y nef, a minau yn wrthodyn; na'r hon na ddymunwn i, er cymaint fy anmherffeithrwydd, i ddynion ei chanlyn rhag ofn na chyrhaeddent y rhagoroldeb moesol hyny y mae Duw yn fwriadu iddynt gyrhaedd, neu y suddent yn îs na'r bwystfilod. Ni all y Duw daionus roddi dim nad yw yn dda; a'r grefydd hòno yn unig all ddyfod oddiwrth Dad cyffredinol dynolryw, yw yr un sydd yn llesiol i bawb, yr hon, fel yr haul, a oleua ddeall ac a wresoga galon pob dyn, o ba lwyth, iaith, a chenedl bynag y bo.

Dyma'r nodau drwy ba rai yr adnabyddaf yr unig wir grefydd, y grefydd sydd o Dduw, a'r hon ni ddyfeisiwyd gan ddyn. Prif ddyben crefydd Duw ydyw dedwyddwch ei blant. Gwna crefydd Duw bawb fel Duw—yn dduwiol. Dinystria bechod, taena santeiddrwydd, nertha y gwan, hyfforddia y cryf, esmwythâ y blinderog, tyn y nefoedd i lawr i'r ddaear, dyrchafa y ddaear i'r nefoedd, a gwna amser yn llawforwyn i dragywyddoldeb.

Pe deuwn fel dyeithr o ynys bell ac unigol yn y môr, lle na chyrhaeddodd na geiriau nac enw yr Iesu erioed, a chlywed o honof ei addysgiadau yn nghylch pethau dynol a dwyfol, pethau tymhorol a thragywyddol, buaswn yn rhwym o addef fod y dysgawdwr hwn o'r nef. Llais Duw yw ei lais; ei athrawiaeth sy dragywyddol fel Duw ei hun, ac mewn hollol undeb â'r hyn a ddysga Duw i ni yn ei weithredoedd. Buaswn yn rhwym o gredu ynddo, oblegid teimlwn fod ei eiriau yn fywyd tragywyddol. Gwaeddwn allan o orfoledd, "Yr hwn sydd yn credu ynddo ef, nid yw yn credu ynddo ef, ond yn yr hwn a'i hanfonodd."

Ei athrawiaeth ef yn unig sydd wir ddwyfol; a phe na fuasai erioed wedi ei chadarnhau â gwyrth, na'i selio â'i waed, er hyny mae yn wir, ac nid yn unig felly, ond ynddi ei hun yn wyrth, yn eglurhad uniongyrchol o feddwl ac ewyllys Duw,—haul yn codi yn nghanol tywyllwch. Rhwymyn undeb yw rhwng Duw a dynion. Byth nis gallasai gael ei dyfeisio gan ddyn. Buasai yn rhaid i'r dyfeisiwr fod yn gyfarwydd, nid yn unig o ran ei ddeall, ond ei brofiad dyfnaf, â gweithredoedd tywyllaf a dysgleiriaf y byd moesol, tynged a gallu yr yspryd dynol, grym y nwydau, telerau gwir heddwch yn mhob calon, a'r egwyddorion hyny ar ba rai y gorphwys pwer a llwyddiant teyrnasoedd. Buasai yn rhaid iddo wybod meddyliau yr athronydd a thyb y plentyn, gorfoledd santeiddrwydd a dychrynfeydd pechod. Rhaid fuasai iddo wahanu y gwir oddi wrth anwir, canfod dynoliaeth â llygad ei Hawdwr, a chael yn amlwg o'i flaen, nid yn unig alluoedd dynion a'u tueddiadau, ond hefyd eu canlyniadau i'r eithafion pellaf. Ac yn mhwy yr oedd hyn yn bosibl cyn i'r Iesu ymddangos? Nid ydym yn hollol anwybodus yn nghylch yr hyn a lefarodd ac a wnaeth y doethaf a'r goreu o ddynion o'i flaen. Y mae llawer o'u syniadau ar glawr. Pwy ond yr Iesu a rodda mewn ychydig eiriau allwedd i bob dirgelwch mewn bywyd? ïe, a'r allwedd yn gynwysedig mewn ychydig egwyddorion trwy ba rai y gall y deall haneragored, yn gystal â'r wybodaeth ddoethaf a'r ddoethineb ddyfnaf, ganfod goleuni nefol. Yn ol athrawiaeth yr Iesu, ein Tad yw Duw, a rhaid i ddyn fod yn bur o galon cyn ei weled—yn berffaith fel Duw ei hun. Yn ol yr Iesu, cariad yw swm a sylwedd yr holl orchymynion, a gwneuthur

i arall fel y dymunem i arall wneuthur i ninau. Yn ol yr Iesu, hefyd, parhad o'r bywyd hwn yw'r bywyd tragywyddol.

Dwyfol yn ei tharddiad raid fod y grefydd a roddes yr Iesu i'r byd; oblegid beth ond llaw Duw a welaf yn ei dechreuad a'i chynydd? Pwy yw deddfwr dynolryw? Pwy yw gwaredwr y byd o'i dywyllwch? Trwy ba allu y rhoddes yr Iesu i'r athrawiaeth a ddysgodd ddylanwad ar bob calon i'r hon y gwnelai ei ffordd? A oedd efe, fel Moses, yn arweinydd cenedl waredigol, golwg yr hwn oedd gyfraith i'r miloedd a waredwyd o dan iau caethiwed? neu fel Mahomed, yn rhyfelwr llwyddiannus, yr hwn trwy ei fuddugoliaethau a ennynodd sêl byddinoedd i ymladd drosto nes dymchwelyd gorseddau a darostwng cyfandiroedd? A oedd efe, fel y Cesariaid, yn arglwydd ymherodraeth ëang? neu fel Plato, yr ysgolhaig mwyaf yn ei wlad a'i oes?

Dim! Daeth heb wychder na mawredd. Nis ganwyd ef mewn palas; a phan esgorodd ei fam arno, ni chlywyd bloeddiadau byddinoedd. Mewn tlodi ac angen y gwelodd gyntaf y goleuni. Ei gadair oedd preseb. Yn fynych nid oedd ganddo le i roddi ei ben i lawr. Ei ddysgawdwr daearol pwy all enwi? Cynyddodd mewn doethineb fel y tyfodd mewn maintioli. Dynion cyffredin a diddysg o'r radd iselaf oedd ei ddysgyblion. Y genedl, gwaed yr hon oedd yn ei wythienau, yn mysg yr hon yr oedd yn byw, a chan yr hon y gwrthodwyd ef, oedd y ddirmygedicaf yn mhlith cenhedloedd y byd, ac ar y pryd hwnw yn crymu dan iau gaethiwus estroniaid. Y person isel hwn a siglodd gyfundraeth gymdeithasol yr hen fyd hyd ei sylfaen, gan ddarostwng ei phinaclau uwchaf, a dyrchafu ei hiselion barthau hyd y nef. Allorau a themlau a ddiflanasant, oraclau a darawyd yn fud, a'r groes, yr hon unwaith a ffieiddid, a ddaeth yn arwydd ar lumanau ymherodrawl llywodraethwyr y byd, a sigliadau y ddaeargryn sydd wedi parhau o'r pryd hwnw hyd yn awr i gyfnewid ac adnewyddu gwyneb y ddaear.

Yn mha le y cafodd ei ddoethineb ryfeddol? A ddarfu iddo gysegru bywyd i gasglu gwybodaeth? A dreuliodd efe driugain mlynedd a deg i gynull doethineb mewn pethau dwyfol a dynol yn mhlith amrywiol genhedloedd? Fe allai iddo ganlyn ol traed Pythagoras a Plato, a myned oddiamgylch, nid yn gymaint i wneuthur daioni ag i grynhoi addysg a lloffa pelydrau gwasgaredig goleuni. Na! dim o'r fath beth. Yr oedd yn ddeg-ar-hugain oed pan y gadawodd ei fwth-artref yn Galilea, ac y dechreuodd athrawiaethu. Yr oedd wedi cyrhaeddyd y cyfnod hwnw mewn bywyd pryd y mae'r corff yn ei lawn faintioli, y nwydau yn fywiog, serch at y byd yn oruchafol, a'r enaid yn rhoddi ei egni at elw ac anrhydedd. Ar yr amser yn gymhwys pryd y mae y cyffredinolrwydd o ddynion yn rhuthro o'u bodd i gaethiwed y nwydau, mae yr Iesu yn dyfod allan yn fawreddog fel bôd goruch-ddynol. Yn goncwerwr ar holl gyffroadau îs-raddol, tafla allan y meddylddrychiaeth mwyaf goruchel, cyflawna ei gyfraith ei hun, ac y mae yn byw bywyd o fwynasgarwch dibaid. Pwy ddywedech sydd yn ail i'r Iesu? Mae gorsedd Dafydd yn cael ei chynyg iddo; y mae yn ei gwrthod. Y deyrnas mae efe yn sefydlu sydd lawer uwch, yn fwy gogoneddus, a hwy ei pharhad. Yn cael ei ddeall gan ychydig, os gan neb, bron yn amddifad o gydymdeimlad a chynorthwy, aeth oddiamgylch gan ddysgu a iachâu y bobl gyda'r fath symlder, rhwyddineb, a hyder, â phe buasai llyfrau tynged dragywyddol yn agored o'i flaen. A'r hyn a ddisgynai o'i enau ar y ffordd, yn y

glaf-ystafell, yn maes yr ŷd, yn y llong, neu ar ochr y bryn, ni allai neb o'i gyd-oeswyr egluro na chadarnhau trwy eu profiad eu hunain. Yr hyn a ellid ei draethu yn wir neu yn ffugiol yn unig mewn oesoedd diweddarach, ydynt wedi eu cyflawni yn rhyfeddol, rai o honynt, ac ereill yn cael eu hegluro a'u cyflawni gan y chwyldroadau a'r cyfnewidiadau a gymerant le yn mhlith gwahanol genhedlaethau y ddaear.

Dysgawdwyr godidog fuont yn dysgu am hir amser mewn dinasoedd poblogaidd, ond y mae yr hyn a ddysgasent wedi myned yn anghof. Dysgai Crist fynychaf mewn lleoedd anghyfaneddol, ac ni pharhaodd i ddysgu ond dros dair blynedd; er hyny, mae ei eiriau ar gof, ac yn awr mor nerthol â phan ddaethant allan o'i enau. Teyrnasoedd cedyrn a gymerasant oesau i'w sefydlu, ydynt wedi cwympo; ond am deyrnas yr Iesu, mae yn awr, ar ol yn agos i ddwy fil o flynyddoedd, yn gryfach a helaethach nag y bu erioed, ac i gynyddu fel y mae y byd i heneiddio.

Ac a oedd efe, am yr hwn y mae y pethau hyn yn wir, yn fôd daearol? Ydoedd! yn fôd dynol, wedi ei eni o wraig, ond ei ddonio oddiuchod âg Yspryd Duw. Ynddo yr eglura Duw ei hun yn hynod i'r hîl ddynol, fel y gwna yn ei holl weithredoedd, gan lefaru wrthym yn yr haul dysglaerwyn, yn y lili hardd, yn y mwswm sidanaidd; ond yn llawer eglurach, cyflawnach, a mwy serchus yn ngeiriau a bywyd ein brawd hynaf a'n hanwyl athraw Iesu Grist.

Mor dda fyddai genyf wybod rhagor yn nghylch bywyd y person rhyfeddol hwn! ond hanes boreu ei oes sydd guddiedig oddiwrthym. Yr Efengylwyr, y rhai a dynasant ei ddarlun, ni adroddant ragor na'i fywyd cyhoedd fel dysgawdwr; gwnant felly yn eithaf anghelfydd, mewn iaith sengl ryfeddol, heb gynyg at addurn, ac heb un ymdrech i foddhau nac i ddallu y darllenydd. Braidd yn ddieithriad, ysgrifenant heb wybod am draethodau eu gilydd; o ganlyniad, mae yr hanes a roddant yn amrywio mewn trefniad a bychain fanylion. Ond pa fodd bynag, cytunant yn y prif ffeithiau, gan egluro y naill y llall.

Dwyfol yn ei dechreuad yw ffydd y Cristionogion; â chamau diysgog a mawrydig y rhodia rhwng anghymedroldeb coelgrefydd a diffygion anffyddiaeth; ynddi hi yn unig y ca fy enaid ei foddloni, a'm syched am fwy o oleuni nefol ei dòri; hi symuda fy amheuaeth, a thrwyddi daw i mi ras y Santeiddiolaf.

Gwir yw y canfyddaf yn yr Eglwys Gristionogol amrywiol syniadau a chalonau ysgaredig, ond y mae ynddi danlawr undeb—un Duw, un Crist, un gwirionedd, un Cristionogaeth. Mae amryw eglwysi, ond un grefydd Gristionogol; amryw athrawiaethau a defodau, ond un ffydd, un gobaith, un datguddiad o fywyd tragywyddol.

Mae symlrwydd a gorwychder addysgiadau yr Iesu, fynychaf, yn rhy oruchel i ddynion o feddyliau a chwantau cnawdol i allu eu dirnad, er pa mor roesawus ac anwyl bynag ydynt gan y deall plentynaidd; am hyny ymdrechant ddwyn i mewn i'r efengyl addurniadau i gyfateb i'w harchwaeth anianol; ac y mae eu hymdrech i raddau wedi llwyddo. Dyga Iuddewon a Chenhedloedd gyda hwynt, pan yn cymeryd arnynt yr enw Cristionogol, syniadau israddol, bydol, cnawdol. Dyma ffynonell dywyll a lleidiog sectau a phleidiau, yn nghyda'u holl amrywiol opiniynau. A wnawn ni briodoli i grefydd ddwyfol yr Iesu yr hyn sydd yn ddyledus i ffaeleddau dynol? Na! mae ei sylweddoldeb santaidd y dydd heddyw y peth oedd ddeunaw cant o flynyddau yn ol, pryd y deilliodd o enau

Crist yn ei symlrwydd a'i phurdeb genedigol. Yr ydym o hyd, er cymaint yw llygreddau yr cfengyl, mewn sylwedd, yn meddiant o'r gair a lefarodd yr Iesu, a'r gair a dderbyniodd ei ddysgyblion ac a draddodasant i'r byd.

Yr amrywiaethau a geir yn y gwahanol ffurfiau o Gristionogaeth ydynt, gan mwyaf, wedi deilliaw oddiwrth olygiadau dynion, ac a gyfnewidiant yn ol dylanwad byth-gyfnewidiol hinsawdd, amser, ac amgylchiadau. Ond am air yr Iesu, mae yn wastad yr un—ddoe, heddyw, ac yn dragywydd; i barhau byth fel y ffynon ddihyspydd o'r hon y tarddodd, ac o'r hon y drachtia miloedd o blant dynion. Ie, sicr ydyw fod yr amgyffred ddynol, ar y cyfan, yr un yn ei ddullwedd yn mhob oes a gwlad, ac mor sicr yw, fod y grefydd Gristionogol i ddyfod yn grefydd y byd. Effaith gwareiddiad, yr hwn a aiff rhag ei flaen, fydd symud yr anmhuredd sydd wedi ymgymysgu âg aur yr efengyl. Ffurfiau newydd o feddwl, a dulliau newydd o'r bywyd dynol, a gyfodant ac a ymdaenant ond yn unig i ddangos pa mor rhwydd yr addasa sylwedd Cristionogaeth ei hun at amgylchiadau, ac yr ymgymysga fel pwer bywhäol ac ardderchogawl â gwahanol agweddiadau cyflwr dyn. Mae eisoes wedi dyfod yn grefydd y cenhedloedd mwyaf gwareiddiedig a phwerus ar y ddaear; a chyhoeddir i ni gan holl herodron mawr y dyfodol, fod yr awr yn dyfod pryd na fydd ond "un bugail ac un gorlan."

Bydded fy ffydd, gan hyny, yr ewyllys-rodd ddwyfol hòno a adawyd i mi gan fy Mhrynwr, yn anwylach a mwy gwerthfawr yn fy ngolwg na phob meddiant daearol. Hi yn unig wasgara y cymylau a dywyllant fy ngobeithion mwyaf hoff a chysurlawn. Hi yn unig a'm cyfyd yn uwch na'r llwch, ac allan o bob amgylchiad daearol. Hi yn unig a weina hyder a nerth i mi yn ystormydd bywyd; heddwch a llawenydd yn yr yspryd, er fy mod yn marw beunydd yn y byd darfodedig hwn. Hi yn unig a'm cymoda âg angeu, yr hwn fydd yn enill, ac a rydd olwg i mi ar y bryniau hardd a welaf trwy niwl yr ochr draw i hafan marwolaeth; ïe, hi, a hi yn unig a siriola fy yspryd â'r gobaith o ail-gyfarfod mewn bywyd gwell â'r sawl y bu yn anwyl genyf am danynt yn y fuchedd hon, ond ydynt wedi fy rhagflaenu i'r nefol wlad. Pwy a'm gwahana i oddiwrth gariad Duw yr hwn sydd yn Nghrist Iesu fy Arglwydd!

Parhaf i ddal y ffydd hon yn ddiogel, modd bynag y gwawdia y sawl sydd yn cael eu dal yn gaeth gan eu nwydau cnawdol. Prawf gofidus yw eu gwawd o'u hisel gyflwr. Parhaf i ddal y ffydd hon yn ddiogel, modd bynag yr ymosodir arni gan falchder a hunan-dybiaeth anghredinwyr. Ddynion annedwydd! paham y ceisiwch amddifadu ereill o'r cysur sydd eisieu arnoch eich hunain? Mewn ymrafael parhaus â hwy eu hunain fel â'r byd, O! na chanfyddent oddiwrth eu cyflwr eu hunain fod amheuaeth a negyddiad cyffredinol yn annaturiol ac afiachus, ac o angenrheidrwydd yn anwiredd, yn gymaint â'u bod yn dwyllodrus i'r natur ddynol.

Yn olaf, parhaf i ddal y ffydd hon yn ddiogel, am fod dy air, O Dad! a lefarwyd trwy Grist Iesu, wedi suddo yn ddwfn i'm calon gyda phwer iachäol. Yr wyf yn credu ynot ti, O Dduw! yr hwn a ddatguddiwyd fel fy Nghreawdwr, fy Mhrynwr, a'm Santeiddydd. Yr wyf yn credu yn dy santaidd fab Iesu, yr hwn a osodaist yn arweinydd i ereill o'th blant. Yr wyf yn credu yn dy Santaidd Yspryd, yr hwn sydd yn bywhau pob peth, ac yn cyfranu o'th berffeithrwydd i ysprydoedd ereill. Nid

wyf yn credu llai hefyd yn fy yspryd fy hun—ei hunan-ymddibyniaeth, ei berffeithioliad, a'i anfarwoliaeth trwy dy ras, O Dad! i mi yn Nghrist. Ac, yn ddiweddaf, yr wyf yn credu yn y byd tragywyddol hwnw lle y bydd i bob cam gael ei iawni, lle y bydd i angeu gael ei lyncu i fynu gan fywyd, a lle ni bydd na chwmwl, na phechod, na thrymder; oblegid bydd Duw, y Tad anfeidrol, oll yn oll! H. Z.

JOHN BIDDLE.

Ganwyd y dyn rhagorol hwn yn Wotton-under-Edge, yn Sir Gaerloew, yn y flwyddyn 1615. Ei rieni oeddynt ddynion cyfrifol a duwiol. Wedi iddo dderbyn egwyddorion addysgiaeth tra rhagorol yn ysgol ramadegol Wotton, danfonwyd ef i brif-ysgol Rhydychain. Yma canlynodd ei fyfyrdodau gyda y fath ddiwydrwydd a llwyddiant, fel y daeth yn lled enwog fel ysgolhaig da yn mhlith ei gyd-fyfyrwyr. Y pryd hwn y meithrinodd y duedd ryddfrydig o feddwl, yr hon a'i harweiniodd mewn amser diweddarach i adchwilio ac ymosod ar gyfeiliornadau crefyddol yr oes; oblegid dywedir wrthym "iddo philosphyddio yn y fath fodd, fel ag i gael ei arwain yn fwy gan ei feddwl ei hun na chan awdurdodau a meddyliau dynion ereill." Y mae hyn yn brawf o feddwl annibynol; ac yn nyddiau Biddle yr oedd yn beth mor anghyffredin ag oedd yn werthfawr. Yn 1638, cyrhaeddodd y radd o B.A., a chafodd ei ddewis yn athraw yn y brif-ysgol, yr hon swydd a gyflawnodd yn hynod o alluog. Yn fuan ar ol hyn derbyniodd wahoddiad i ddyfod yn athraw yn yr ysgol ramadegol yn Caerloew. Yma hefyd rhoddai y fath foddlonrwydd i rieni y plant, fel yr ystyrient hi yn fraint gael eu danfon i'r ysgol.

Yn y sefyllfa hon cafodd Mr. Biddle gyfleusdra i ganlyn tuedd ei feddwl. Ymroddodd i fyfyrio yr Ysgrythyrau gyda'r awyddfryd perthynol i'w natur, a hyny heb un cynorthwy rhagor na phurdeb meddwl a thaer weddi ar Dduw am oleuo ei ddeall. Rhaid addef mai dyma'r ffordd iawn i astudio yr Ysgrythyrau; ac y mae lle i ofni fod llawer, a deilyngant barch o ran eu hegwyddorion cyffredin, yn ymwneyd â'r gwaith hwn, nid yn gymaint gyda dyben i ddeall meddwl y gyfrol santaidd ag i gael allan yr hyn a dybiant yn brofion o athrawiaethau a dderbyniasant yn ddiymchwil oddiwrth ereill. Gwrthodant awdurdod Pabau, tra ar yr un pryd y cymerant eu caethiwo gan esponwyr. Nid bychan yw y niwaid a ddeillia o'r dull hwn o drafod y Beibl. Nis gallwn lai na chymeradwyo cynghor ac arfer Biddle i bawb sydd am ddeall yr Ysgrythyrau, yn hytrach na chymeryd eu harwain gan farn ereill yn eu cylch. "Os ydwyt ti, ddarllenwr Cristionogol," medd efe, "yn chwennych yn dy galon gael allan wybodaeth am Dduw, a'i Fab ef, Iesu Grist, yn yr hyn y mae bywyd tragywyddol yn gynwysedig, na ddechreua drwy chwilio beth ddywed Socinus neu ei wrthwynebwyr, ond yn hytrach ymrodda dy hun i chwilio yr Ysgrythyrau, heb amheu dim na fydd i'r gwir oleuni yn y diwedd dòri ar dy ddeall." Mor ffyddlon y darfu i Mr. Biddle ganlyn y dull hwn o chwilio am y gwirionedd dwyfol, fel y gallasai adrodd yr Ysgrythyrau air yn air, yn Saesoneg ac yn Roeg, o ddechreu Genesis hyd y bedwaredd bennod yn y Datguddiad; ac ar yr hyn a feddyliai oedd canol-ystyr y gyfrol santaidd y sylfaenai ei grêd. Y canlyniad fu iddo ganfod nad oedd sylfaen ysgrythyrol i athrawiaeth

y Drindod. *Daeth i'r casgliad hwn cyn iddo weled traethawd Undodaidd erioed;* ac nid efe yn unig, ond llawer ereill a allem enwi.

Pa fwyaf o drafferth a gymero dyn i chwilio am wybodaeth, gan nad beth bynag a fo, mwyaf anwyl a gwerthfawr yw y wybodaeth hòno yn ei olwg. Felly Mr. Biddle. Yr oedd y gwirionedd o gymaint pwys yn ei olwg, fel yr ystyriai yn ddyledswydd arno i'w wneyd yn wybodus i ereill. Mewn ysgrifen ac ymddiddan amddiffynai yr athrawiaeth o Undod Duw, gan ddynoethi anysgrythyroldeb y Drindod. Darfu i'r ymddygiad hwn yn lled fuan enyn llid brwdfrydwyr crefyddol yn ei erbyn, y rhai ni adawsant heibio ei erlid nes i angeu ei waredu o'u gafael. Gwysiwyd ef o flaen yr ustusiaid; ond ar ol llawer o aflonyddwch, gollyngwyd ef y tro hwn yn rhydd. Yn fuan ar ol hyn, ysgrifenodd draethawd yn erbyn personoliaeth yr Yspryd Glan; a'r canlyniad fu iddo gael ei daflu i garchar yn Caerloew, a'i wysio oddi yno i Westminster, i ateb am ei heresi o flaen yr *Assembly of Divines*, yr hon oedd y pryd hwnw yn eistedd. Yn lle ateb ei resymau fel y gellid dysgwyl, beth wnaeth yr *Assembly* ond defnyddio pob moddion allasent ddyfeisio i'w osod i farwolaeth. Cafodd ei gadw yn ngharchar am flynyddau. Ar farwolaeth Charles I., cafodd beth esmwythder trwy i Cromwell fod yn offerynol i ddiddymu y cyfreithiau cospawl yn erbyn crefydd; ond yr oedd o hyd yn garcharor. Yr oedd ei driniaeth y pryd hwn mor arw, fel yr oedd yn dda ganddo yn fynych gael llymaid o laeth yn y carchar i dòri ei newyn; oblegid yr oedd ei feddianau wedi eu cymeryd oll oddiwrtho. Mor chwerw yn ei erbyn y pryd hwn oedd ei elynion, fel y danfonent at Cromwell ddeiseb ar ol deiseb i osod Biddle i farwolaeth. Ond yr oedd y dyn mawr hwnw, Cromwell, yn elyn i erledigaeth o achos crefydd; ac i waredu Biddle o afael ei elynion, danfonodd ef i'r *Scilly Isles*, gan roddi iddo ychydig arian yn flynyddol at ei gynhaliaeth. Wedi bod yno ryw amser, cafodd ganiatâd i ddychwelyd adref. Cymaint er hyny oedd ei sêl dros y gwirionedd, fel yr adgymerodd at ei ddyledswyddau fel gweinidog ffyddlon i Iesu Grist. Y canlyniad fu, iddo gael ei daflu drachefn i garchar, yn nghyd â rhai o'i gynulleidfa; ac am na allasai dalu can punt o ddirwy, yn ngharchar y cafodd fod hyd nes y darfu i angeu a brynti y lle osod terfyn ar ei fywyd ar yr 22ain o Fedi, 1662, yn saith a deugain oed!

Fel hyn y triniwyd yr Undodwr duwiol John Biddle am ei syniadau! Onid oes rhwymau mawr arnom ni, yn yr oes hon, i ddiolch i Dduw am ryddid crefyddol? Yr ydym ni yn cael proffesu, a hyny yn ddiofn, yr egwyddorion am amddiffyn pa rai y collodd Biddle ei fywyd. Yr oedd yn ysgolhaig heb ei ail yn ei oes, yn hyddysg yn yr Ysgrythyrau, o ymddygiad difrycheulyd, yn meddu sêl anniffoddadwy dros y gwirionedd, ac yn ddyn oedd yn ofni Duw.

Y RHESWM PAHAM.

Beth yw'r achos fod yr enwadau Trindodawl yn gomedd yr enw Cristion i'r Undodwr? Y mae yn ffaith eu bod. Rhestrant yr Undodwr gyda'r Twrc, yr Iuddew, yr *Infidel*, a'r Atheist. Llefarant am dano fel dyn cyfeiliornus—fel un sydd yn sicr o fod yn golledig yn y diwedd. Paham y gwnant felly? a phaham y gomeddant iddo yr enw Cristion?

Ac hefyd, nid oes un enw dan y nef yn anwylach gan yr Undodwr nag enw Crist, ac nid oes neb yn credu yn gadarnach ynddo na'r Undodwr. Nid oes neb, ychwaith, yn caru Crist yn fwy, nac yn dal agosach cymundeb âg ef, na'r Undodwr difrifol. Crist yw ei Flaenor a'i Arweinydd i deyrnas nef. Y mae yn ymhyfrydu myfyrio ar ei eiriau, canys creda mai ganddo ef y mae geiriau y bywyd tragywyddol. Yn ngwynebpryd yr Iesu mae yn gweled delw y Duw anweledig. Creda iddo adgyfodi o feirw, a'i fod yn awr mewn modd neillduol yn mhresenoldeb Duw. Mewn gair, mae yn credu ynddo fel uniganedig Fab Duw, ac hyd byth y gallo yn ceisio cadw ei orchymynion.

Os nad yw yr Undodwr, yr hwn sydd yn credu yn Nghrist yn y modd hwn, yn Gristion, pwy sydd? Ac os yw yn Gristion, paham y gomeddir iddo yr enw?

Nid oes un gwrthwynebiad, ar a wyddom ni, i ymarweddiad moesol yr Undodiaid fel enwad. Addefir eu bod yn ddynion geirwir, onest mewn masnach, ac yn ddynion rhinweddol. Am fasnach, addefa llawer o'r Trindodwyr eu hunain fod yn well ganddynt fasnachu âg Undodwr na neb arall, oblegid fod llai o dwyll ynddo, ac y gallant ymddibynu mwy ar ei air nag ar air llawer o'u brodyr eu hunain yn yr un eglwys. Addefant nad arfer yr Undodiaid yw dyweyd geiriau teg a chrefyddol a delio yn galed. Er hyny oll, siglant eu penau am ei grefydd, a dywedant mewn geiriau eglur nad yw yn Gristion, fel pe credent nad yw crefydd dyn yn dal un cysylltiad â'i fuchedd. Heretic ydyw, gwaeth na'r *Infidel*, pe byddai yn bosibl.

Yn awr am yr achos. Yr achos yw hyn,—Nid oes un athrawiaeth yn fwy croes i grefyddau poblogaidd ein gwlad nag Undodiaeth. Os yw Undodiaeth yn wir, rhaid fod llawer o syniadau mewn Trindodiaeth nad ynt yn wir. Os yw un yn ysgrythyrol, rhaid nad yw y llall felly. Am hyny, os ffyna Undodiaeth, rhaid i'r athrawiaeth Drindodaidd ddiflanu, oblegid ni all y ddwy fod yn wir. Y canlyniad yw, fod Undodiaeth yn cael ei chasâu, ei drwgliwio, ei chamddarlunio, ac yn mhob man ddywedyd yn ei herbyn. Nid ydym ni yn gallu credu mai serch y Trindodwyr at y gwirionedd, er na ddymunem er dim amheu eu serch ato, yw'r gwir achos, neu yr holl achos o'u gwrthwynebiad i Undodiaeth. Meddwl yr ydym ni fod a fyno sectariaeth â llawer o hono. Gwyddant nad oes un athrawiaeth yn groesach i Drindodiaeth nag Undodiaeth. Os lledaena hi, rhaid i'r llall ddarfod.

Beibl eglwys Crist yw Beibl yr Undodwr—yr Ysgrythyrau Cristionogol. Mae efe hefyd yn darllen y Beibl sectaraidd. Yr un yw y ddau, mae'n wir; ond pan ddywedwn fod yr Undodwr yn darllen yn Beibl sectaraidd, meddwl ydym ei fod yn ei ddarllen *(y Beibl)* fel Trindodwr, er mwyn gweled a yw yn cynwys yr athrawiaethau Trindodaidd. Y canlyniad yw fod y dull y darllena Feibl eglwys Crist, neu y modd y dealla hwnw, yn peri i'r Undodwr wrthod y Beibl sectaraidd. Am hyny mae yr Undodwr yn *gorfod* gwrthod rhai athrawiaethau poblogaidd ag y gosodir pwys mawr arnynt gan ein brodyr Trindodaidd, fel athrawiaethau sylfaenol Cristionogaeth.

Y Drindod yw un o'r athrawiaethau hyn. Nid yw yr Undodwr yn gallu credu yn yr athrawiaeth hon, o herwydd, yn gyntaf, nad yw yn ei chanfod yn yr Ysgrythyrau, y rhai a ddarluniant Dduw fel un Bôd anranedig. Nid oes air o sôn ynddynt am "Drindod mewn Undod," na

dim oddiwrth yr hyn y gellid casglu y fath athrawiaeth. Yn ail, o herwydd fod yr athrawiaeth yn groes i dystiolaeth gweithredoedd Duw yn y greadigaeth. Mae yn anmhosibl myfyrio ar weithredoedd y greadigaeth heb ganfod undeb dyben trwyddynt oll—un peth yn cyfateb i'r llall—yr hyn a ddengys mai un yw eu hawdwr oll.

Gan hyny, nid yw yr Undodwr yn credu fod Iesu Grist yn Dduw yn ystyr helaethaf y gair. Os yw yn cael ei alw yn Dduw yn yr Ysgrythyrau, rhaid ei fod yn cael ei alw felly yn yr ystyr y gelwir Moses yn dduw, neu frenhinoedd a barnwyr Iuddewig. Yn awr, sylfaen Trindodiaeth yw yr athrawiaeth hon. Peth peryglus, gan hyny, i Drindodiaeth yw cynydd Undodiaeth; oblegid os nad yw y sylfaen yn dda, rhaid i'r adeilad gwympo.

Mae yr Undodwr hefyd yn gwrthod yr athrawiaeth boblogaidd o iawn i gyfiawnder—athrawiaeth bwysig arall gan y Trindodwr, ac yn ymddibynu yn hollol ar wiredd yr athrawiaeth o Dduwdod Crist. Os nad oedd Crist yn Dduw, ni allasai roddi iawn *anfeidrol* i gyfiawnder; o blegid, yn ol Undodiaeth, bôd meidrol oedd Crist. Nid oes ond un Bôd anfeidrol, a Jehofah yw hwnw. Gwrthoda yr Undodwr yr athrawiaeth hon yn agos ar yr un sail ag y gwrthyd yr athrawiaeth o Dduwdod Crist, sef am nad yw yn ysgrythyrol, a'i bod yn milwrio yn erbyn tystiolaeth y Beibl,—sef fod Duw yn maddeu i'r pechadur ar ei edifeirwch, a hyny heb un iawn i gyfiawnder, nac i gyfraith, na dim o'r cyffelyb, Nid yw y Trindodwyr eu hunain yn cytuno yn nghylch yr athrawiaeth o iawn. Yn wir, y mae llawer o wahanol olygiadau yn ei chylch. P'un o'r gwahanol gyfundraethau iawnol a fynant i'r Undodwr gredu? Cyfiawnder fyddai ynddynt benderfynu hyny cyn collfarnu yr Undodwr.

Mae yr Undodwr hefyd yn gwrthod yr athrawiaeth boblogaidd o haeddiant Crist. Athrawiaeth bwysig iawn gan ein brodyr Trindodaidd ydyw hon hefyd. Os nad yw yr athrawiaeth o iawn i gyfiawnder yn wir, mae yn canlyn nad yw Crist yn haeddu dim dros y pechadur ar law Duw. Nid oes eisieu unrhyw anogaeth ar Dduw i faddeu i'r pechadur; oblegid y mae ei gariad atom yn ddigon.

Cyffelyb i hyn yw y rhesymau paham y mae Undodiaeth mor gâs yn ngolwg llawer o'n brodyr Trindodaidd; a hyn yw y gwir achos na oddefant fod yr Undodiaid yn Gristionogion. Nid ydym yn beio arnynt ychwaith; oblegid os yw y golygiadau sydd gan y Trindodwyr yn nghylch "trefn yr achub" yn wir, rhaid fod yr Undodiaid yn cyfeiliorni. Os yw Cristionogaeth y peth y dywedir ei bod yn ol yr athrawiaethau poblogaidd, nid yw yr Undodiaid yn Gristionogion. Dyma'r cwestiwn, sef, A ydyw yr athrawiaethau a enwasom yn rhan o Gristionogaeth? Mae yr Undodiaid yn dal nad ydynt, ond mai ymlusgo i mewn i Gristionogaeth a wnaethant mewn oesoedd diweddarach.

Yn ddiweddaf, yn ol barn yr Undodiaid, y mae pob dyn sydd yn addef dwyfoldeb danfoniad yr Iesu, ac yn cymeryd ei arwain ganddo fel ei flaenor, na waeth i ba enwad y bydd yn perthyn, yn Gristion, ac yn deilwng o'r enw. O'r holl enwadau crefyddol yn mhlith Cristionogion, Undodiaeth Gristionogol yw y mwyaf catholicaidd. Crêd yr Undodiaid y bydd pawb yn gadwedig sydd yn gyffelyb i Grist. O'r tu arall, dal y Trindodwyr na all neb fod yn Gristion, na bod yn gadwedig yn y diwedd, oni chrêd yn yr hyn a alwant hwy yn "drefn yr achub." P'un sydd yn debyg o fod yn wir, ddarllenydd?

Y DDAEAR.

Y BLANED a elwir y ddaear, sef ein byd ni, yw y nesaf yn y gyfundrefn haulaidd. Mae ei llwybr blynyddol rhwng llwybr Gwener a Mawrth. Nid yn fynych iawn yr addurnwn ni ein traethodau anghelfydd â darnau o gyfansoddiadau prydyddawl, fel mae yn arfer gan yr ysgrifenwyr mwyaf campus; ond gan fod chwant arnom adrodd chwech llinell o eiddo y prydydd *Blackmore* fel yn dra phwrpasol, gobeithiwn yr esgusoda y darllenydd ni am unwaith:—

> **What is the strong impulsive cause, declare,**
> **Which rolls the ponderous orb so swift in air?**
> **You who so much are versed in causes, tell**
> **What from the tropics can the sun repel?**
> **What vigorous arm, what repercussive blow**
> **Bandies the mighty globe still to and fro?**

Ymdrechwn ateb y gofyniadau hyn os cawn anogaeth i fyned yn y blaen â'n gwaith.

Y peth cyntaf a alwn sylw ato yw ffurf y ddaear. Gyda golwg ar hyn coleddai philosophyddion yn yr hen oesoedd dybiau a ymddangosant i ni yn awr yn blentynaidd a chwerthinus. Meddyliai rhai mai arwynebedd oedd y ddaear, rywbeth yn debyg i ynys yn amgylchynedig gan y weilgi, yr hon oedd yn rhedeg oddiamgylch iddi yn ddiseibiant fel rhyw afon ddirfawr. Digon tebyg mai hyn oedd tyb yr hen fardd Homer. Ar beth y safai y ddaear a'r weilgi, nid ydynt yn dywedyd. Dywedir fod Heraclitus yn ei chyffelybu i gwch, Aristotle i dympan, a Posidonius i ffon-dafl. Cyffelybid hi gan rai i hanner pellen. Lactantius ac ereill o'r tadau Cristionogol a dybient mai arwynebedd *round* yw y ddaear, ac yn ymestyn i lawr fel colofn i'r dyfnderoedd yn ddiderfyn. Yn wir, hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg, y meddwl cyffredin gan ddduwinyddion oedd fod y ddaear yn *flat*, ac mai odditani yr oedd uffern, carchar eneidiau yr annuwiolion. Dichon y coleddent y dyb hon oherwydd yr hyn a ddywed yr Apostol (Phil. ii. 10). Fel llawer o ddynion call y dydd heddyw, credent, os oedd yr ysgrifenwyr santaidd dan ddwyfol yspryd-oliaeth yn un peth, eu bod felly yn mhob peth. Yn eu plith mae yr hen wr *anffaeledig* yn Rhufain; a dichon yr ystyriant hi yn anrhydedd mawr fod y Pab a hwythau o'r un farn. Pythagoras oedd yr unig un o'r hynafiaid, a'r a wyddom ni am dano, ag oedd wedi deall ffurf y ddaear. Ei dyb ef oedd ei bod yn grwn fel pêl, yr hon dyb sydd yn awr wedi ei phrofi tu hwnt i bob amheuaeth, ond nid gan y Pab a'i gyd-anffaeledigion.

Anhawdd yw i ni yn awr amgyffred pa fodd y gallasai neb goleddu unrhyw dyb wahanol am ffurf y ddaear. Ond beth dâl siarad, mae yn anmhosibl i ni ddirnad pa fodd y gallasai dynion gredu fod dyn yn cael ei gyfnewid i fod yn dduw, ac y gallasent addoli teirw, cathau, ac adar, a dychymygion gwael ereill. Ond rhaid i ni gredu fod y peth yn ffaith. Yn wir, ceir cannoedd y dydd heddyw a gredant y gall dyn fod yn Dduw, a Duw fod yn ddyn, yr hyn sydd mor wrthun â chredu fod y ddaear o ran ei ffurf yn debyg i glawr bara. Nid oes diwedd na mesur ar goelgarwch y werinos, yn enwedig os meddyliant fod dirgelwch yn nglŷn â'r peth.

Crwn fel pellen yw y ddaear o ran ei ffurf. Y mae genym amryw brofion o hyn. Pan fyddoch yn edrych ar long yn dyfod i'r golwg ar y môr, brîg yr hwylbren ganfyddir gyntaf. Daw'r corff i'r golwg yn

raddol fel y byddo y llong yn agoshau; ac oni bai fod y ddaear yn grwn fel pellen, ni allai hyn fod. Hefyd, prawf arall yw diffyg ar y lleuad. Chwi wyddoch fod pob corff yn taflu cysgod tebyg o ran ei ddull iddo ei hun. Er fod y lleuad ddau can mil o filltiroedd oddiwrth y ddaear, mae cysgod y ddaear, yr hon sydd yn llawer mwy o gorff na'r lleuad, yn ymestyn i'r ëangder yn llawer pellach na'r lleuad. Pan ddygwyddo y lleuad fyned drwy ran o'r cysgod mae diffyg arni, hyny yw, mae rhan o dywyllwch y cysgod yn cuddio oddiwrthym gyfran o arwynebedd y lleuad. Bob amser mae ymylon y cysgod hyny yn *round*, yr hyn ni allai fod oni bai fod y ddaear hefyd yn *round*. Mae genym brawf diamheuol arall fod y ddaear yn *round* fel pêl, sef fod morwyr wedi hwylio ugeiniau o weithiau oddiamgylch iddi. Dechreuant eu taith tua'r dwyrain, ac yn fynych dychwelant o'r gorllewin, neu yn y gwrthwyneb. Profion diamheuol ydyw y rhai hyn; rhaid, gan hyny, fod y ddaear o ran ei ffurf yn grwn fel pêl.

Er hyny, dylai y darllenydd ddeall nad ydyw y ddaear yn berffaith *round* yn mhob ffordd. O'r dwyrain i'r gorllewin yn unig y mae felly. Mae tryfesur y ddaear o'r dê i'r gogledd yn llai nag o'r dwyrain i'r gorllewin. Y gwahaniaeth sydd rywle o saith i bymtheg ar hugain o filltiroedd; am hyny, mae'r ddaear yn debycach i eurafal *(orange)* nag i bêl. Gwnaethwyd llawer cynyg, o bryd i bryd, yn enwedig yn y ddwy ganrif ddiweddaf, i fesur amgylchedd y ddaear. Sir Richard Norwood oedd y cyntaf yn y wlad hon, a wyddom ni am dano, a amcanodd wneyd hyn. Yn y flwyddyn 1635, ar y dydd hiraf yn yr haf yn Llundain, mesurodd uwchder canolddydd yr haul o'r dê, (yn Seisneg, *the sun's meridian altitude*,) ac yn y flwyddyn ganlynol gwnaeth yr un peth yn York, ar yr un dydd o'r flwyddyn. Cafodd allan fod y ddwy ddinas yn ddwy radd ac 28 mynyd oddiwrth eu gilydd, yr hyn sydd yn cyfateb i 12,849 o gadwyni neu *chains*, yr hyn a wna amgylchedd y ddaear yn 25,036 o filltiroedd, a'i thryfesur yn agos i 7,970. Yn ol cyfrif M. Laplace, y tryfesur cyhydeddawl yw 7,924, a'r un pegynawl 7,916. Dichon fod 7,926 am y tryfesur cyhydeddawl, a 7,899 am yr un pegynawl, yn agos iawn at y gwir, yr hyn a wna yr amgylchedd cyhydeddawl yn 24,903 o filltiroedd.

Paham mae tryfesur y ddaear yn llai yn y pegynau nag yn y cyhydedd? Y farn gyffredin am yr achos yw, fod sylwedd y ddaear ar y cyntaf yn hylif, neu ryw fath o wlybwr *(fluid)*. Os dyma ei chyflwr pan gafodd y tröad cyntaf ar ei phegynau gan y fraich Hollalluog, yr oedd ei gwaith yn troi, a hyny gyda chyflymdra o fil o filltiroedd yr awr, yn y cyhydedd yn peri iddi chwyddo yn y canol. I ddangos mai dyna y ffurf oedd yn rhaid iddi gymeryd, llanwch bêl *(sphere)* o wydr yn agos yn llawn o ddŵr; yna perwch i'r bêl i droi mor gyflym â chàn tro mewn eiliad, a chwi a gewch weled y dŵr yn cilio o'r pegynau, gan chwyddo yn y canol, yn ei ymdrech i neidio ymaith fel dŵr o ganol maen llyfanu pan yn troi yn gyflym. Ni a gawn weled, cyn bo hir, os caniatâ cyfeillion Yr Ymofynydd iddo fyw cyhyd, fod ffurf rhai o'r planedau mawrion sydd yn troi oddiamgylch yr haul tu allan i gylch y ddaear yn gyffelyb, sef yn gulach yn eu pegynau nag yn eu cyhydedd. Oherwydd hyn mae amgylchedd y ddaear yn ffordd ei phegynau yn llai na'i hamgylchedd cyhydeddawl o 42 milltir.

Oddiwrth y rhifnodau uchod cawn fod arwynebedd y ddaear yn

cynwys 196,626,000 o filltiroedd 'scwâr. Yn yr arwynebedd aruthrol hyn mae oddeutu 147,469,500 yn orchuddiedig gan ddŵr, ac y mae llawer mwy o ddŵr yn y parthau deheuol nag sydd yn y gogleddol i linyn y cyhydedd. Pe gosodech *globe* yn y fath sefyllfa fel ag y byddai Llundain mewn canolbwynt o flaen eich llygaid, a chilio ychydig gamau yn ol oddiwrthi, caech weled Ewrop, Asia, Affrica, gogledd a rhan o ddeheubarth America. Drachefn, gosodwch y *globe* fel y byddo ein gwrthdroedolion yn nghanolbwynt y llygad, oddieithr New Holland, ac ambell i ynys yma a thraw, ni fydd dim i'w weled ar wyneb y *globe* ond moroedd.

Yn awr, wedi mesur gwyneb y ddaear, a dywedyd wrthych faint a gynwys o filltiroedd 'scwâr, yn nesaf ni a fesurwn ei chorff, ac hefyd ni a'i pwyswn! "B'le y cewch dafol a phwysau ddigon mawr," medd rhywun, "i bwyso y ddaear!" Chwi wyddoch beth yw dernyn o bren troedfedd o hyd, lled, a dyfnder. Meddyliwch fod yr ochrau yn filltir yn mhob ffordd; chwi ellwch hefyd amgyffred dernyn o'r fath. Yn lle pren, meddyliwch fod genych ddernyn o ddaear o'r un faintioli. Gelwid y fath ddernyn yn Seisneg *Cubic mile*. Nis gwyddom yn iawn beth i'w alw yn Gymraeg, oblegid mae'r iaith yn llwmach o eiriau. Dywedwn hyn gyda phob parch i'n beirdd godidog a'n heisteddfodwyr hyawdl.

Mae ein daear yn cynwys o filltiroedd *cube*—(nid oes y fath air wedi ei Gymreigio o'r Seisneg)—259,800,000,000! Galluoga gwyddoniaeth fesuronol ni hefyd i bwyso y ddaear, a hyny mor rhwydd ag y pwysa siopwr ei siwgr neu ei dê, neu wraig ffermwr ei hymenyn. Gallwn hefyd roddi ein gair nad oes dim twyll nac yn y dafol na'r pwysau. Yn awr, Mr. Argraffydd, edrychwch am ddigon o *ciphers* (0) i wneyd i fynu y rhif canlynol:—

6,069,000,000,000,000,000,000!

Cymaint â hyna o dunelli yw pwysi y ddaear—rhif nas gall y meddwl dynol mo'i amgyffred. Mae y ddaear bum gwaith yn drymach na *globe* o'r un maintioli o ddwfr.

Onid yw yr awyr hefyd yn pwyso? Ydyw. A gadael fod y *case* awyrawl sydd oddiamgylch y ddacar yn 37 milltir o drwch, y mae pwysau yr awyr yn 5,178,000,000,000,000 o dunelli. Er hyny, nid yw y ddaear ond bychan o faintioli mewn cydmariaeth i rai o'r bydoedd ereill sydd yn cyd-deithio â hi oddiamgylch yr haul. Y mae ddeuddeg cant o weithiau yn llai na'r byd a elwir lau; ac nid yw ond megys gronyn yn ochr yr haul!

Ond pa fodd bynag, er cymaint yw pwysau y ddaear a'r awyr, teithiant o amgylch yr haul mor gyflym ag wyth mil a thriugain milltir yr awr! Beth a feddyliwn am rym y fraich hòno a osododd y ddaear mewn symudiad? Braich yr anfeidrol Dduw ydyw, ddarllenydd!—y fraich sydd yn dy gynal di a minau. Gelli fod yn sicr ei bod yn fraich ddigon cref i orphwys arni.

ESPONIADAU.

Luc iv. 16. *Ac efe a ddaeth i Nazareth, lle y magesid ef; ac, yn ol ei arfer, efe a aeth i'r synagog ar y sabbath, ac a gyfododd i fynu i ddarllen.*] Yr oedd yn arfer gan yr Iuddewon ddarllen rhanau o'r Hen Destament ar y sabbath yn eu synagogau; a phan yn darllen y gyfraith a'r pro-

phwydi, yr oedd yn rhaid i'r sawl oeddynt yn darllen sefyll ar eu traed: unrhyw ran arall, megys llyfr Esther, a allasent ddarllen yn sefyll neu yn eistedd, fel y byddai y darllenwr yn dewis. Wrth y gyfraith, mae i'r darllenydd ddeall llyfrau Exodus, Leviticus, Numeri, a Deuteronomi. Wrth y prophwydi, mae iddo ddeall llyfr Joshua, Barnwyr, dau lyfr Samuel, dau lyfr y Brenhinoedd, Esaiah, Jeremiah, Ezeciel, Hosea, Joel, Amos, Obadiah, Jonah, Micha, Nahum, Habaccuc, Zephaniah, Haggai, Zechariah, Malachi. Galwai yr Iuddewon y llyfrau ereill *Cethubim*, neu Ysgrythyrau, sef y Psalmau, Diarhebion, Job, Caniad Solomon, Ruth, Galarnad Jeremiah, Pregethwr, Esther, Daniel, Ezra, Nehemiah, a dau lyfr y Cronicl. Caniateid i bawb ddarllen yn gyhoeddus yn y synagog—Lefiaid, offeiriaid, a gwyr lleyg. Yn wir, or oedd yn rhaid i saith ddarllen bob sabbath—offeiriad, Lefiad, a phump Israeliad. Dyma'r rheswm paham y caniateid i'r Iesu ddarllen yn synagog Nazareth, yr hwn nid oedd offeiriad na Lefiad.

Luc iv. 17. *A rhoddwyd atto lyfr y prophwyd Esaias.*] Swydd y *Chazan*, neu was y synagog, oedd rhoddi y llyfr i'r hwn oedd yn myned i ddarllen, a'i gymeryd ymaith; ond pan fyddai archoffeiriad i ddarllen, yr oedd y *Chazan* i roddi y llyfr i lywodraethwr y synagog i'w roddi i'r *Sayan*, neu y llywydd, yr hwn a'i rhoddai i'r archoffeiriad. Rhyw swydd debyg i swydd diacon oedd swydd y llywodraethwr. Yr un fath seremoni hefyd oedd yn cael ei harferyd pan fyddai tywysog neu frenin yn myned i ddarllen.

Luc iv. 20. *Ac wedi iddo gau y llyfr a'i roddi i'r gweinidog, efe a eisteddodd.*] Fel y sylwasom yn barod, pan fyddai dysgawdwr Iuddewig yn darllen y gyfraith a'r prophwydi, safai ar ei draed, i ddangos parch i'r Ysgrythyrau; ond pan fyddai yn myned i ddysgu y bobl, eisteddai i lawr. "Yn nghadair Moses," medd Crist, "yr *eistedd* yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid," hyny yw, y dysgant y bobl. Mat. xxiii. 2. Pan oedd dysgawdwr yn eistedd, yr oedd yn arwydd ei fod yn myned i ddysgu. Dywedir am yr Iesu (Mat. v. 1), "Ac wedi iddo *eistedd*, ei ddysgyblion a ddaethant ato;" oblegid yr oedd ei waith yn eistedd yn arwydd ei fod yn myned i lefaru. Ac felly yn yr adnod dan sylw. Gwyddai y gwyddfodolion ei fod yn myned i'w hanerch wrth ei waith yn eistedd i lawr wedi darllen; am hyny dywedir fod "llygaid pawb oll yn y synagog yn craffu arno." Digon tebyg i'r arfer o bregethu oddiwrth ryw adnod o'r Ysgrythyr ddeilliaw oddiwrth y cwstwm yn y synagog o lefaru wedi darllen cyfran o'r Ysgrythyr; oblegid darfu i'r Cristionogion yn eu dull o gario yn mlaen eu haddoliad efelychu gwasanaeth y synagog.

Actau xiii. 15. *Ac ar ol darllen y gyfraith a'r prophwydi.*] Dywed y dysgedigion Iuddewig iddi fod yn arferiad i ddarllen y gyfraith gant a thriugain a deg o flynyddau cyn geni Crist. I'r dyben o ddarllen pum llyfr Moses drostynt mewn blwyddyn, y mae'r copiau Hebraeg wedi eu rhanu yn dri dosparth ar ddeg a deugain, sef un dosparth bob sabbath, a dau ar un sabbath yn y flwyddyn. Pa sabbath oedd hwnw nid ydym wedi gallu gwybod. Dywedir mai gwaith Ezra oedd rhanu y gyfraith yn ddospeirth. Yr oeddynt yn gorphen darllen y gyfraith yn wastad ar wledd y Pebyll, yr hon wledd a alwent "llawenhad y gyfraith." Pan ddarfu i Antiochus Epiphanes losgi llyfr y gyfraith, a gwarafun i'r Iuddewon ei ddarllen, hwy a ddetholasant yn ei le ranau o'r prophwydi, y rhai a feddylient oeddynt yn gyffelyb o ran geirian a synwyr i ddos-

peirth y gyfraith, ac a'u darllenasant yn lle y gyfraith. Byth oddiar hyny arferwyd darllen y gyfraith a'r prophwydi bob sabbath. Gelwid dosparth y dydd "Gollyngdod;" oblegid gollyngid ymaith y gynulleidfa wedi darllen y prophwydi, oni byddai rhywun yn esponio iddi air Duw. Dyma y rheswm i'r Antiochiaid anfon at yr Apostolion, gan ddywedyd, "Ha, wyr frodyr, od oes genych air o gynghor i'r bobl, traethwch."

PAHAM Y MAE YMBORTH YN OFYNOL?

Yn ein rhifyn am fis Mehefin eglurasom i chwi gyfansoddiad yr awyr. Sylwasom fod yr awyr yn cynwys dwy brif elfen, *oxygen* a *nitrogen;* eglurasom hefyd effaith *oxygen* fel purwr y gwaed pan fyddo wedi gorphen ei waith, ac yn dychwelyd yn ol drwy ochr ddê y galon i'r ysgyfaint i daflu allan ei anmhuredd. Dywedasom wrthych beth yw *carbon, carbonic acid,* y modd mae *carbon* yn ymgymysgu â'r gwaed, a'r moddion sydd gan natur i daflu allan yr hyn sy'n ormodol, fel na byddo iddo wenwyno y cyfansoddiad. Gobeithio eich bod wedi talu sylw manwl i'r wers bwysfawr hòno, ac wedi ymdrechu ychwanegu ati drwy eich diwydrwydd a'ch myfyrdod eich hunain. Dyma yr unig ffordd i gyrhaedd gwybodaeth, yr hon nid yw i'w chael heb lawer o ymdrech a ffyddlondeb trwyadl yn nefnyddiad y moddion a'r cyfleusderau ag y mae Duw yn roddi i chwi ac i bawb ereill, i raddau mwy neu lai, ac am ba rai yr ydych yn atebol.

Awn rhagom y tro hwn i sylwi yn gyntaf fod swm y gwres a grëir yn yspaid pedair awr ar hugain mewn corff dyn iach ac o gyflawn faintioli, yn ddigon i droi pump galwn o ddwfr o fod yn iâ i gyflwr berwedig, yr hyn a ofyna gymaint o wres ag a roddir allan gan un pwys o lo. Sylwasom o'r blaen fod gwres y corff yn cael ei *greu* gan yr uniad a gymer le yn yr ysgyfaint rhwng y *carbon* a gludir ymaith o'r cyfansoddiad gan y gwaed, a'r *oxygen* sydd yn yr awyr ydym yn anadlu. Am hyny, pe na wnaid i fynu â sylweddau newydd y *waste* a gymer le yn y llosgiad, ni fyddai peirianau y corff yn hir cyn treulio i ben, na'r tân cyn diffodd. Mynyd o ystyriaeth sy ddigon i ganfod mor gymwys y cytuna hyn â ffaith. Pan fyddo dyn neu anifail yn hir heb ymborth, neu o herwydd anhwyldeb yn methu cymeryd ymborth digonol, mae'r cyfansoddiad yn *wastio*, am fod yr *oxygen* yn gofyn tanwydd yn wastadol; ac os na chaiff danwydd newydd drwy gyfrwng ymborth, efe a ddifa sylwedd y corff, sef y cig coch *(muscle)*, a phob gronyn o floneg a fyddo ynddo. Yna, wedi difa y tanwydd oll, ac os na roddir rhagor ar yr aelwyd, mae'r tân yn diffoddi, hyny yw, mae'r gwaed yn myned yn ddiwerth, y corff yn oeri, a'r bywyd yn darfod. Y mae yn deilwng o sylw yma, pan fyddo yr *oxygen* yn yr ysgyfaint yn ymborthi braidd yn hollol ar sylwedd y corff, o ddiffyg ymborth, na rodda y llosgiad y gwres sydd yn ofynol i'r corff. Pâr hyn deimlad o oerfel; o ganlyniad, mae dynion tlodion ag nad ydynt yn cael digon o ymborth, neu o ymborth meithrinol, yn fwy agored i oerfel na'r sawl a gânt yr hyn sydd yn ofynol i'r cyfansoddiad. Pan fyddo oerfel allanol hefyd yn chwanegu at yr oerfel mewnol, a'r dillad yn deneu ac anghlyd, mae dyoddefaint y tlodion yn fwy. Dylai y sawl sydd ganddynt eu gwala a'u gweddill o fara, hyny yw, ymborth priodol, gofio am danynt, ac i gyfranu o'u heiddo, yn enwedig yn y gauaf, pan fyddo yr hîn yn oer ac yn galed.

Yn nghyfansoddiad pob creadur byw y mae elfen bwysfawr arall, yr hon a elwir *nitrogen*. Y *gas* hwn, mewn cysylltiad â *charbon*, sydd yn adeiladu y corff. Mewn undeb â'u gilydd gwnant i fynu y cyfansoddiad. Am hyny rhaid cael y ddwy elfen hyn yn yr ymborth. Yn awr, daliwch sylw, nid yw pob math o fwydydd yn cynwys yr un faint o'r ddwy elfen. Cynwys rhai bwydydd fwy o *nitrogen*, rhai fwy o *garbon*. Am hyny rhana naturiaethwyr fwydydd yn ddau fath—*nitrogenised* a *non-nitrogenised*. *Bloraiedig* yw y gair Cymraeg a arferwn am y cyntaf, a *difloraiedig* am y diweddaf. Mae y bwyd bloraiedig yn gwneyd i fynu gymhlethwe y corff, megys y cig coch (*muscle*), y gïau, y croen, y galon, yr ymysgaroedd, y cylla, yr ysgyfaint, yr afu, y boten ludw (*rancreas*); mewn gair, pob sylwedd tyner yn y cyfansoddiad ond y bloneg. Bwydydd bloraiedig ydynt gig coch, gwyn ŵy, llaeth, caws, pob math o ymborth a wneir o flawd gwenith, haidd, ceirch, rhŷg; ffâ, pŷs, erfin, cloron, panas, moron (*carrot*), bresych, cenyn, &c. Y difloraiedig ydynt bob math o frasder cig, ymenyn, mêl, *starch*, *gum*, *mucilage*, *oil*, siwgr, &c. Maent yn cynwys *carbon* a *hydrogen*. *Carbon* mewn undeb âg *oxygen* sydd yn creu gwres, fel y sylwasom yn barod. Mae yn dianc o'r genau wrth anadlu nid *carbonic acid* yn unig, ond hefyd ddwfr mewn cyflwr anweddawl. Os anadlwch ar *looking-glass*, chwi ellwch weled y dwfr. O ba le y mae y dwfr hyn yn dyfod i'r *lungs*, neu yr ysgyfaint? Mae yn cael ei greu yno gan yr *hydrogen* a'r *oxygen*, y rhai a unant â'u gilydd yn fferyllawl. Cynyrch yr uniad yn wastad yw dwfr, yr hwn sydd yn cael ei wneyd i fynu o'r ddwy elfen hyn. Yn awr chwi welwch, oni bai y sylwedd difloraiedig mewn bwydydd, ni fyddai na gwres yn y corff na gwlybrwydd yn yr ysgyfaint.

Yn nesaf, rhaid i ni sylwi fod pob bwydydd bloraiedig yn cynwys sylweddau difloraiedig; ond nid yw bwydydd difloraiedig yn cynwys sylwedd bloraiedig, hyny yw, *nitrogen*.

Yn y daflen ganlynol, rhoddwn gerbron y darllenydd y cyfartaledd sydd rhwng sylwedd bloraiedig a difloraiedig mewn bwydydd cyffredin. Mae y daflen wedi ei thynu allan o waith M Liebig.

Bwydydd.	Sylwedd Bloraiedig.	Sylwedd Difloraiedig.
Llaeth Menyw	10	40
Llaeth Buwch	10	30
Cîg Eidion	10	17
Ffâ	10	22
Pŷs	10	23
Bloneg Cîg Dafad	10	27
Cîg Gwyn Mochyn	10	30
Gwenith	10	46
Haidd	10	57
Ceirch	10	50
Rhŷg	10	50
Cloron	10	86
Rice	10	123

Rice yw y bwyd a gynwys fwyaf o'r sylwedd difloraiedig o'r bwydydd a enwir yn y daflen, am hyny, rhaid bwyta llawer o hono i gael y maeth bloraiedig sydd yn ofynol i'r cyfansoddiad, oblegid nid oes dim llai na 123 o ranau yn myned i greu gwlybwr a gwres. Er hyny, y mae y

llafuryn gwerthfawr hwn yn ymborth hanner y byd. Dywedir wrthym fod bol y cyfryw sydd yn byw arno yn fwy o faint na bol y sawl sydd yn byw ar fara, cîg, &c. Mae yn rhaid bwyta llawer o gloron hefyd i gael y maeth sydd yn ofynol i'r corff. Nid oes eisieu nodi allan werth y daflen uchod wrth neb darllenwyr deallus.

Y mae dyn yn y gauaf ac ar dywydd oer yn gofyn mwy o fwydydd dilloraiedig nag yn yr hâf pan fyddo yr hîn yn dwym, am fod yn rhaid i'r gwres mewnol wneyd i fynu ddiffyg y gwres allanol. Onid yw yn ffaith fod arnom fwy o awydd am gigoedd a chîg brâs yn y gauaf nag yn yr hâf? Peth tra gwrthwyneblyd i ni fyddai bloneg morfil, neu *blubber*, fel bwyd, a chanwyllau ac ûl; ond gan yr *Esquimaux*, sydd yn byw mewn eira tragywyddol, nid oes dim yn fwy danteithiol na *blubber* ac ûl; ac am ganwyllau, bloneg, &c., gwyddys ei fod yn ffaith am gadpeniaid llongau pan yn gauafu yn moroedd y gogledd, eu bod yn gorfod gofalu am eu canwyllau, onidê ni fyddai y morwyr fawr o amser cyn eu llyncu. Paham? Am fod natur yn yr hinsoddau gogleddol yn gofyn brasder. Hefyd, onid yw yn ffaith fod trigolion deheubarth Ewrop, a gwledydd twym, yn bwyta mwy o ffrwythau nag a wnawn ni yn y wlad hon? Mae yn eithaf gwir fod trigolion Prydain yn difa mwy o gîg na'r Ffrancwyr; ond anwybodaeth y Ffrancwr wnaeth iddo sylwi fod y Sais yn tòri ei fedd â'i ddannedd.

Peth da yw cymysgu gwahanol fathau o fwydydd, fel y byddo i sylwedd un bwyd wneyd i fynu y diffyg mewn bwyd arall. Mae yn wir y gallai dyn fyw ar fara yn unig, ond byddai yn fwy cryf ac iachus trwy ei fwyta gydag ymenyn. Nid oes nemawr o sylwedd difloraiedig mewn caws, yn enwedig caws sych Cymru. Wrth wneyd y cyfryw, cymera y llaethwragedd ddigon o ofal na ddianc dim o'r hufen i'r gwryf. Yr un peth gyda golwg ar y cyfansoddiad yw bwyta y caws hwn â bwyta bara, a byddai yn rhaid bwyta cymaint o hono ef ag o fara i gael o hono y maeth sydd yn ofynol.

I gynal bywyd ac i faethu y corff rhaid cael y ddau sylwedd a enwasom mewn bwydydd. Ychydig flynyddau yn ol, i'r dyben i brofi hyn, porthasom gî â siwgr yn unig. Mewn pum niwrnod aeth y creadur mor wan a theneu fel braidd y gallai sefyll ar ei draed; ac yr ydym yn meddwl y buasai farw mewn o chwech i saith niwrnod oni fuasai i ni roddi i fynu y prawf, a dychwelyd iddo ei ymborth cynefinol.

Ond mae yn rhaid i ni roddi heibio y tro hwn. Os cawn anogaeth gan gyfeillion Yr Ymofynydd, ni a ddychwelwn at y pwnc eto. Digon tebyg mai cylchrediad y gwaed, ei gyfansoddiad, &c., fydd ein testun nesaf.

TRETHI Y LLYWODRAETH.

Meddyliwn y bydd tracthawd o'r fath a ganlyn yn adeiladol, ac yn dderbyniol gan ein darllenwyr; am hyny, os cawn anogaeth i fyned yn mlaen â'n gwaith, a mwy o gynorthwy, anrhegwn ein cyfeillion âg ysgrif o'r fath yn awr ac yn y man.

Darllenwn yn yr Ysgrythyr (Neh. iv. 17, 18) am yr Iuddewon, pan newydd ddychwelyd o gaethiwed ac yn dechreu ail adeiladu caerau eu dinas, eu bod yn y fath berygl oddiwrth eu gelynion, fel y gorfyddent yn wastad gario arfau a bod ar eu gwyliadwriaeth. Rhag ofn ymosod-

iadau sydyn, gorfyddent âg un llaw ddal arfau, tra fyddent yn gweithio â'r llaw arall. Fel hyn yr oedd yn ofynol cael dau ddyn i wneyd gwaith un: ond rhaid oedd gosod i fynu â'r anhawsdra oblegid y perygl oeddynt ynddo.

Yn y dwyrain y mae llawer o wledydd hyd y dydd heddyw yn yr un fath gyflwr ag oedd yr Iuddewon pan yn ail-adeiladu eu dinas. Blinir y trigolion gan yspeilwyr—Arabiaid fynychaf, y rhai a wibiant yn wastad oddi amgylch am ysglyfaeth, fel nad oes gan neb obaith dianc rhag cael ei yspeilio, oni fydd yn eithaf arfog ac ar ei wyliadwriaeth beunyddiol. Dywed teithwyr wrthym, pan fyddo hwsmon yn myned allan i hau ei dir, ei fod yn gorfod cadw dyn gydag ef â chleddyf a gwaewffon i warchod ei lafur hâd. Tan y fath amgylchiad, rhaid fod gwrteithio tir yn orchwyl tra chostfawr; oblegid mae y gwaith a ellid ei gyflawni gan un dyn yn gofyn dau, sef un i weithio a'r llall i ymladd; ac am hyny mae yn rhaid i'r ddau gael rhan o'r cynyrch, yr hwn yn amgen a fyddai yn eiddo un. Ac yn wir, wedi'r cyfan, rhaid fod diogeliant meddianau yn anmherffaith; oblegid nid yn anfynych y mae yr yspeilwyr yn dyfod yn y fath rym fel ag i faeddu yr amddiffynwyr ac yspeilio y diwyd o ffrwyth ei lafur. Am hyny, ychydig o dir a wrteithir gan y trigolion. Gadawant i'r rhan fwyaf o hono dyfu yn wyllt. Teneu hefyd yw y trigolion—llai na'r ugeinfed ran allai y tir gynal—ac y mae yr ychydig sydd yno yn dlawd druenus. Dyma effaith naturiol anniogelwch meddiant.

Cyffelyb i hyn yw cyflwr pob gwlad lle mae y trigolion yn anwaraidd. Mae y rhan fwyaf o amser, llafur, a gofal anwariad, yn cael ei gymeryd i fynu yn y gwaith o hunan-ddiogeliad. Rhwng mynu arfau i ddiogelu ei hun rhag y sawl all ymladd â hwynt, neu ynte ymguddleoedd rhag y sawl sydd yn rhy gryf iddo, ni fyddai ganddo fawr amser i roddi at fywioliaeth. Yn ynysoedd New Zealand gorfyddai, hyd yn ddiweddar, ar amryw deuluoedd yn fynych uno â'u gilydd i adeiladu eu cabanau ar ben creigiau a serthleoedd, a'u hamgylchynu â chlawdd a llymbolion, er diogelwch rhag eu cymydogion; er hyny oll, nid yn anfynych y goddiweddid hwynt yn ddirybudd gan eu gelynion. Yn y fath wledydd mae can' cymaint, yn ol eu nifer, yn cael eu lladd bob blwyddyn ag sydd yn un parth yn Ewrop. Nid oes cymaint o feddianau yn cael eu dystrywio, mae yn wir, oblegid nid ydynt yn perchen meddianau. Mae y trigolion, o angenrheidrwydd, yn dlawd. Yn y lle cyntaf, mae hanner eu hamser yn myned i ddiogelu eu hunain rhag yspeilwyr a gelynion; ac yn yr ail le, mae eu diogelwch mor ansicr fel na wyddant pa fynyd y cânt eu hyspeilio o'r ychydig a feddant. Nis gall dim cyfoeth fod yn un wlad lle mae y meddiant o hono yn ansicr.

Llywodraeth sefydledig ydyw yr unig feddyginiaeth rhag y fath gyflwr truenus. Dyben llywodraeth yw diogelu ei deiliaid, hyny yw, i sicrhau bywydau a meddianau dynion rhag trais a thwyll. Dyma'r dyben sydd ganddi mewn golwg yn darparu llongau rhyfel a milwyr, oblegid rhaid diogelu y wlad rhag gelynion estronol, môr-ladron, yspeilwyr, a gwrthryfel. I'r dyben hwn y ceidw wyliedyddion, cwnstebli, a swyddwyr o'r fath, sef i ddal drwg-weithredwyr, carcharau i'w cadw a'u cospi, a barnwyr, ustusiaid, a brawdleoedd i'w *treio;* mewn gair, pob moddion sydd yn cisicu i gadw heddwch, i ddiogelu personau dynion, ac i sicrhau i bawb fwyniant o'u meddianau.

Yn awr, onid peth eithaf rhesymol yw fod traul y fyddin a'r llynges,

a phob peth a ddarperir gan y llywodraeth, i gael ei thalu gan y bobl, oblegid er eu lles hwy y maent? I'r dyben hyn y talwn dreth i'r llywodraeth. Y pris ydyw a dalwn am ddiogelwch. Cyfateba i'r hur a dâl yr hwsmon yn y dwyrain i ddyn am gario y cleddyf a'r waewffon i'w ddiogelu rhag yspeilwyr.

Nid ydyw pawb yn deall hyn, neu ynte nid ydynt yn ystyried. Meddylia llawer am dreth y llywodraeth ei bod yn beth gwahanol iawn i bob traul arall. Naill ai ni wyddant, neu nid ystyriant, eu bod yn derbyn gwerth am eu harian. Mewn gwirionedd, wrth dalu treth i'r llywodraeth, yr ydym yn talu am nwyf, heb yr hwn ni fyddai ein meddianau o fawr gwerth i ni. Yr ydych yn talu y pobydd a'r cigwr am eich porthi, a'r teiliwr am eich dilladu; felly hefyd yr ydych yn talu i'r llywodraeth a'r senedd am eich cadw rhag cael eich yspeilio a'ch lladd. Pe na wnaech hyn, ni allasech hebgor hanner eich amser at ddarparu bwyd a dillad; oblegid byddai yn rhaid i chwi dreulio rhan fawr o'ch amser i ddiogelu eich meddianau, neu ynte i weithio er mwyn talu hur i ryw un arall am eu diogelu ac ymladd trosoch. Costiai hyn i chwi lawer mwy nag a dalwch mewn trethi i'r llywodraeth, ac oddiwrth siampl yr anwariad, chwi welwch mor anmherffaith fyddai y fath amddiffyniad yn y diwedd. Mentrwn ddyweyd, fod y llywodraeth waethaf a fu erioed yn llawer gwell a rhatach na bod heb lywodraeth o gwbl. Ni fu erioed ffieiddiach gormeswyr na rhai o'r ymerawdwyr Rhufeinig. Yr oeddynt yn yspeilio ac yn lladd nifer dirfawr o ddynion diniwed; er hyny, dan hyd yn nod eu llywodraeth hwy, nid oedd cynifer yn cael eu lladd mewn deng mlynedd âg sydd yn mhlith anwariaid mewn blwyddyn.

Yr ydych yn awr yn deall mai hur neu bris yw trethi a dalwch i'r llywodraeth am eich diogelwch, yn gymhwys yr un modd â'r gwerth a roddwch am bethau ereill sydd eisieu arnoch.

Ond er hyny, mae un gwahaniaeth pwysfawr, sef fod yn newisiad pob dyn am ddyledion ereill p'un a'u tyna ai peidio, ond am ei ddyled i'r llywodraeth, ni all ei gochelyd. Os nad wyf yn dewis prynu esgidiau gan y crŷdd, ond eu gwneyd gartref fy hunan, neu fod hebddynt, yr wyf at fy rhyddid i wneyd fel y byddwyf yn dewis; ac felly am daloedd ereill, gallaf beidio tynu y ddyled. Ond nid felly gyda golwg ar daloedd i'r llywodraeth. Pe dywedai rhywun, "Yr wyf fi yn dewis amddiffyn fy mherson a'm meddianau fy hunan, heb gymhorth oddiwrth na milwyr, na morwyr, na chwnstebli, nac ynadon, ac am hyny nid wyf fi yn dewis talu trethi i'r llywodraeth." Yr ateb fyddai, "Os felly, yna ewch a byddwch fyw wrthoch eich hun yn niffeithwch America, neu ryw le anial arall, neu ynte unwch â'r gwyllt Indiaid, a byddwch fel hwythau; ond tra fyddoch yn dewis byw gyda ni mewn gwlad lle mae llywodraeth, nis gallwch, pe dewisech, lai na chyfranogi o'r diogelwch a rydd y llywodraeth. Y llyngesi a'r byddinoedd a gadwant ymaith elynion estronol rhag yspeilio y wlad ydynt ddiogelwch i chwi fel i ninau. Amddiffynir chwi fel ninau gan gyfreithiau a swyddogion y llywodraeth rhag lladron a mwrddwyr, y rhai, yn amgen, a anrheithient y wlad. Yn gymaint, gan hyny, ag na all y llywodraeth lai nag i chwi gyfranogi o'r diogelwch, cyfiawn yw i chwi orfod, pa un a ddewiswch ai peidio, dalu eich rhan o'r gost. Ond, pa fodd bynag, os ydych mor ffol â gwrthod y fargen, rhaid i chwi adael y wlad, a myned i fyw yn mhlith anwariaid."

Y mae yn eithaf têg, gan hyny, i ddyn orfod ymostwng i'r llywodraeth, a thalu y trethi iddi, cyhyd ag y byddo yn dewis byw o dani. Hefyd, pa faint sydd i bob dyn dalu sydd i'w bendertynu gan y senedd, yr hon a ystyrir yn cynrychioli y bobl, neu, yn wir, beth bynag fyddo natur y llywodraeth. Ond y mae un gwahaniaeth mawr eto rhwng y ddyled i'r llywodraeth a bargeinion ereill. Pan yn hurio dyn i weithio drosoch, chwi wnewch eich bargen eich hun âg ef; ac os na allwch gyduno am yr hur, chwi ymofynwch am rywun arall i wneuthur y gwaith. Ond am y llywodraeth, rhaid iddi hi yn wastad feddu pwer i beri i'r bobl ufuddhau, a thalu y pris fyddo hi yn ofyn; os amgen, nis gall gyflawni y swydd o'u hamddiffyn. Nid iawn, gan hyny, fyddai gadael i ddewisiad pob dyn faint a dala i'r llywodraeth. Hi sydd i benderfynu y swm, ac y mae yn rhaid iddi hi hefyd feddu pwer i beri i bob dyn dalu yr hyn mae yn ymofyn oddiwrtho. Mae yn wir fod llawer o lywodraethau wedi gwneuthur camddefnydd o'u gallu drwy beri i'r deiliaid dalu mwy nag sydd gyfiawn ac yn eisieu, oni bai gwastraff a chyflogau segur, i gario yn mlaen orchwylion y wladwriaeth. Yn y wlad hon, a rhai gwledydd ereill, mae'r bobl yn cael eu sicrhau, i raddau, rhag y fath gamwedd, drwy eu bod yn cael ethol eu llywodraethwyr, hyny yw, aelodau eu senedd, heb ganiatâd yr hon nid oes i un gyfraith gael ei gwneyd, na threth i gael ei gosod ar y wlad. Dylai yr ystyriaeth hon beri i'r bobl fod yn ofalus i beidio danfon neb i'w cynrychioli yn y *parliament* ond dynion onest a chymhwys at y gwaith.

Peth eithaf cyfiawn yw gofyn na fyddo arian y wlad i gael eu gwastraffu, ac na fyddo i'r deiliaid dalu rhagor mewn trethi na'r hyn sydd yn angenrheidiol. Ond nid yw llawer o ddynion mor ddiolchgar ag y dylent fod, ac yn ddiau y byddent, pe gwyddent gyflwr truenus y sawl nid oes ganddynt lywodraeth reolaidd a sefydledig fel sydd genym ni yn Mrydain. O bob peth a dalwn am dano, nid oes dim mor rhâd, mewn cymhariaeth i'r hyn a gostiai i ni i'w ddarparu bob un drosto ei hunan, â'r diogelwch a roddir i ni gan y llywodraeth. Pe gorfyddem, bawb o honom, wneuthur dillad ac esgidiau bob un iddo ei hunan, yn lle eu prynu gan y teiliwr a'r crŷdd, byddai ein dillad a'n hesgidiau yn llawer gwaeth nag y maent, a chostient i ni lawer mwy. Felly hefyd, byddai yn llawer gwaeth arnom pe gorfyddem ddarparu, pob un drosto ei hun, foddion i sicrhau ein diogelwch ein hunain, ein teuluoedd, a'n meddianau. Costiai y fath ddiogelwch i ni yn ddrud iawn, ac yn y diwedd ni fyddai yn fawr o werth.

Dylid cofio hefyd fod llawer o'r trethi, neu gyfran fawr o honynt, yn myned i dalu traul, nid y flwyddyn bresenol, ond blynyddau a aethant heibio, cyn i lawer o honom ni gael ein geni, hyny yw, i dalu "Dyled y Wladwriaeth." Yn amser ein rhyfeloedd hir a chostfawr âg America, Ffrainc, a gwledydd ereill, pan oedd Toriaeth a'r Eglwys Sefydledig yn eu rhodres, ac yn cael eu ffyrdd eu hunain yn llwyr, treulid llawer mwy bob blwyddyn na swm y trethi. Y canlyniad fu i'r llywodraeth orfod benthyca arian oddiwrth gyfoethogion, gan addaw talu llôg blynyddol am danynt hyd nes y telid yr arian yn ol. Nid ydynt byth wedi cael eu talu yn ol, ac nid yw yn debyg y telir hwy byth. Mae y sawl a roddasant fenthyg yr arian, gan hyny, yn derbyn tâl blynyddol am danynt. Gelwir y fath arian, *Government Securities*, neu arian yn y *Funds*, a gellir eu prynu a'u gwerthu, a'u rhanu fel rhyw feddianau

ereill. Pan fyddo gweithiwr wedi troi heibio ychydig arian, mae yn prynu â'i arian gymaint a chymaint yn y *Funds*, neu ynte yn eu dodi yn y *Savings Bank*, pa un sydd yn eu gosod yn y *Funds* drosto, ac yn talu iddo yntau lôg blynyddol am danynt. Yna, mae y gweithiwr hwnw yn un o *greditors* y llywodraeth, ac yn derbyn llôg am ei arian, yr hwn lôg a delir allan o drethi y wlad. Chwi welwch, gan hyny, pe dilëid y *National Debt*, neu Ddyled y Wladwriaeth, heb ei thalu, byddai yn anghyfiawnder chwithig i filoedd o ddynion tlawd a chyfoethog, ac yn golled fawr i'r wlad yn gyffredin. Beth fyddai hyn ond yspeilio un rhan o'r bobl heb fod y rhan arall nemawr neu ddim gwell?

Y mae yn ddrwg genym i gymaint o arian gael eu gwario ar bylor, magnelau, dillad milwyr, a llongau rhyfel, y rhai ydynt wedi darfod a myned allan o'n cyrhaedd mor berffaith ag eira y gauaf diweddaf. Y mae'r arian a dalwyd am danynt wedi eu gwario, ac nid oes genym ni yn awr ddim i wneyd ond talu llôg am danynt; er hyny, nid yw y llôg hwn, mewn gwirionedd, yn gymaint o golled i'r wlad ag y mae llawer yn feddwl. Y mae yn wir, oni bai y llôg hwn, na fyddai yn rhaid talu cymaint o drethi i'r llywodraeth. Ond myned mae'r trethi o logell un i logell y llall: os yw Dafydd yn talu mwy o drethi na fyddai raid iddo, oni bai dyled y llywodraeth, mae llawer o'r trethi yn dyfod yn ol i'w gymydogaeth, a thrwy hyny mae dynion yn gallu rhoddi mwy o waith i Dafydd i ennill arian. Mae y rhai ydynt yn derbyn llôg gan y llywodraeth am eu harian yn prynu mwy o gaws ac ymenyn gan y ffermwr, mwy o ddillad gan y teiliwr, mwy o esgidiau gan y crŷdd, na wnaent oni bai y llôg hwnw. Felly, y mae y ffermwr, y teiliwr, a'r crŷdd yn ennill mwy o arian, ac yn llawer mwy abl i dalu y trethi nag y byddent oni bai llôg y llywodraeth. Y mae yn bryd i ni roddi heibio y tro hwn. Chwi welwch fod y trethi yn dychwelyd yn ol i fwthyn llawer gweithiwr nad yw yn gwybod dim pa fodd, nac yn meddwl dim am y peth.

Cyn rhoddi heibio yr ysgrifell, dichon na fyddai yn anfuddiol i'r darllenwyr pe gosodem i lawr y modd y mae pob punt a delir i'r llywodraeth yn cael ei gwario. Mae yn lled agos fel y canlyn:—

	£	*s.*	*c.*
Traul y llynges, y fyddin, &c.	0	7	2
Y Frenines, swyddogion y llywodraeth, barnwyr, a swyddogion cyffelyb; hefyd, segur-swyddi, *pensions*, &c.	0	0	10
Llôg Dyled y Wladwriaeth	0	12	0
	£1	0	0

Canwyll Feyrling.—Meddai dyn mewn côt lwyd unwaith, "'Does gen' i ddim mwy o ddylanwad na chanwyll frwynen." "Wel," oedd yr ateb, "gall canwyll frwynen wneuthur cryn dipyn—gall osod dâs o wair ar dân; gall losgi tŷ; ïe, a mwy na hyny, gall alluogi dyn tlawd i ddarllen pennod o air Duw." Cerdd yn mlaen, frawd; a bydded i'th ganwyll frwynen oleuo felly ger bron dynion, fel y byddo i ereill, wrth weled dy weithredoedd da di, ogoneddu ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.

Annogaeth i lywodraethu y Nwydau.—Gosododd brenin wyliedyddion ar ei win-gell. Yr oedd rhai o'r rhai hyn yn gymhedrol, ac ereill yn feddwon. Pan roddodd iddynt eu cyflog, derbyniodd y rhai cymhedrol un, a'r meddwon ddwy ran. Yna gofynodd y rhai blaenaf, "Onid ydym oll wedi gwylied yn gyffelyb, pa'm mae'r olaf yn derbyn dwbl?" Atebodd y brenin, "Mae'r rhai olaf yma yn arfer yfed; ond hwy a ymattaliasant yn fawr drwy beidio cyffwrdd â'r gwin; yr ydych chwi yn gymhedrol, ac nid oedd yn anhawdd genych adael y gwin heb ei gyffwrdd, ac am hyny y maent wedi derbyn dwbl gyflog."—*O'r Talmud.*

EMYN I IECHYD.

O'r holl alluoedd claer eu bri
A sangant fanau'r nef mewn nwy',
Iechyd, y gloewaf, caraf di,
Na wâd dy siriol ddoniau'n hwy:
Na atal imi'th wenau mwy.
O! dduwies, gyda mi bydd gu—
Gyfeilles ddirgel swyn fy nhŷ;
Hebot, pob peth fel cysgod goll,
A diwerth âi'r trysorau oll:
Pob tegan, hebot, beidiai 'nghyd
A hudo'm bron a denu'm bryd.

Ah! beth all nerthoedd cyfoeth llawr,
Pe llifai'n ddifyr o rym mawr
Breninol nerth? a beth f'ai clyd
Goegwychder gloewaf bonedd byd,
Pe hebot ti? Gogoniant im',
Fel breuddwyd, a ddiflanai'n ddim.
Pe'm gadael wneit, pa beth f'ai swyn
Perlesmair plant a gofal mwyn,—
Y gwanwyn teg, y blodau glân,
A phur serchiadau'n gwyntio'r tân.

Os prisir gan farwolion lu
Gyfroddion llaw y Llywydd fry,
A thi y tŷf, yn dirf a byw,
Fendithion goreu'r nefoedd wiw;
Ond hebot gwâg âi bydol hoen,
A phenaf hoffder oes âi'n boen.

Bodawen. A. Rhys Thomas.

LLINELLAU O WERTH I'W TRYSORI YN Y COF.

In spite of discouragements still persevere,
For obstacles met will soon disappear;
Keep your temper in calmness however annoyed,
Let your leisure in study be always employed;
Give your hand or your head ever something to do,
And working, or writing, or reading, pursue.
In business be punctual according to rule,
Never procrastinate, ever be cool;
Preserve self-possession, and let no false tongue,
Persuade you to do what you feel to be wrong.
To lengthen your days in morn early rise,
And improve every moment of time as it flies:
Your dignity keep, and pride don't display,
For manners with many hath absolute sway.
All vicious immoral opinions repress,
And never an instant in them acquiesce:
Let your motives of action be seldom made known
To those who would learn them for ends of their own.
Think nothing in conduct of trivial concern,
For on very small matters momentous things turn:
Rather set men examples of what should be done,
Than after the manner of other folk run.
Strict temperance practise, and truly you'll find,
The strength you'll derive in body and mind.
In all your transactions remember the end;
These maxims preserved will to happiness tend.

ENGLYNION

Ar gyflwyniad Oriawr a Chadwyn hardd ysplenydd i Mr. John Jones, (Eiddil Cynon,) gan Gyfrinfa "Rydd a Chytunol," (Free & United Society,) *o Hen Gyfundeb Henafiaethol yr Odyddion, Corner House, Llwydcoed, Aberdâr, Ebrill 18fed,* 1870.

Hwre, ddwys ŵr, arwydd siriol—o barch,
Er budd bryd rhinweddol;
Gwobrwy heb ŵg—bri byw ôl
Dy adweddiad Odyddol.

Er mawl dyn sobr,—dyma obrwy—go fawr
O Oriawr ac Aerwy,
Am rodiad cymeradwy,
Budd mawr wrth ein bodd,—a mwy.

Ni adwaenir yn mhlith dynion—yr oes,
Wr o well rhagorion,—
Canys, mae "Eiddil Cynon,"
Yn ŵr o bwnc—dyn o'r bôn.

Dyn yw hefyd, a nwyfiant—ei enaid
I ddymuno llwyddiant
Pob goror, (pawb a'i gwiriant
O dan sêl) fel dyn a sant.

Ymbalfalu am bŵl folawd—nid yw
Enaid hwn, na'i ddynsawd,—
Oes o burder syberdawd
Ar nen bri, ddirwyna'n brawd.

Hyd oes, i'r Bardd dewisol—O boed llwydd,
Byd llawn, hedd gwastadol;
A'i raid o wynfyd ar ol
Agweddu byd trag'wyddol.

Merthyr. NATHAN DYFED.

ENGLYN

I Mr. William Jenkins, Auctioneer, New Court, Llanwenog.

FFUR yw GWILYM, a pharod,—a'i ddoniau
Yn ddenawl a hyglod
Fel Arwerthwr,—gwr â'i gôd
Dda welaf yn ddiwaelod!—T.

MARWOLAETHAU.

Ebrill 5, yn 16 oed, o'r ddarfodedigaeth, Henry Davies, Gadlys Arms, Tre-Salem, Aberdâr, Bu yr ymadawedig yn nychu am rai misoedd, a phan ddaeth angeu i alw am dano, nid oedd ei ymweliad yn annysgwyliadawy gan ei berthynasau agosaf. Bydded i'r cyfryw ymdawelu yn ngwyneb yr amgylchiad, dan y grediniaeth mai uwch, doethach, ac anfeidrol well yw ffyrdd y Tad nefol na'n ffyrdd ni. Efe a roddodd Henry, ac Efe hefyd a'i cymerodd ymaith yn ei amser ei hun. Y Llun canlynol, daeth tyrfa luosog iawn yn nghyd i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref yn *Cemetery* Aberdâr.

Mai 22, John, anwyl blentyn John a Rachel Davies, (chwaer y Parch. Rees Jones, Cribin,) Capcoch, ger Aberdâr. Claddwyd ef y Mercher canlynol, yn *Cemetery* Mountainash. Cyn cychwyn o'r tŷ, darllenodd a gweddiodd Mr. Lloyd, Cwmbach, a phregethodd i dyrfa luosog yn y *Cemetery* oddiar Salm civ. 15, 16.

D. JENKINS, ARGRAFFYDD, HEOL Y WÎG, ABERYSTWYTH.